



Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cynllun Datblygu Lleol

2011 - 2026

Adroddiad Monitro Blynyddolylunio (Hydref 2022)



Crynodeb Gweithredol	5
-----------------------------------	----------

RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad	11
2 Newid Cyd-destunol	15
2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol	15
2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol	18
2.3 Y Cyd-destun Lleol	20

RHAN 2 - Monitro'r CDLI

3 Strategaeth	25
3.1 Strategaeth	25
4 Polisiâu Troswaol	27
4.1 PS1 'Newid yn yr Hinsawdd'	27
4.2 PS2 'Iechyd'	30
4.3 PS3 'Cymunedau Cynaliadwy'	32
4.4 PS4 'Gofynion Seilwaith'	33
5 Polisiâu Ardal	35
5.1 PS5 'Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir'	35
5.2 PS6 'Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd'	39
6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy	41
6.1 PS7 'Gofyniad o ran Tai'	41
6.2 PS8 'Tai Fforddiadwy'	46
6.3 PS9 'Sipsiwn a Theithwyr'	49
6.4 PS10 'Mannau Agored'	50
7 Hybu Economi Gynaliadwy	53
7.1 PS11 'Twf Cyflogaeth'	53
7.2 PS12 'Manwerthu'	59
7.3 PS13 'Twristiaeth'	60

Contents

8 Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd	63
8.1 PS14 'Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu'	63
8.2 PS15 'Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth'	63
8.3 PS16 'Diogelu'r Amgylchedd'	64
8.4 PS17 'Mwynau'	67
8.5 PS18 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'	70
8.6 PS19 'Rheoli Gwastraff'	71
9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy	75
9.1 PS20 'Rhwydwaith Trafnidiaeth'	75
10 Parchu Unigrywiaeth	77
10.1 PS21 'Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol'	77
10.2 PS22 'Y Gymraeg'	79

RHAN 3 - Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd	83
11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd	83
11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff	86
11.3 Pwnc 3 yr AC: Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	91
11.4 Pwnc 4 yr AC: Tirlun, Treflun a Chymeriad Hanesyddol	93
11.5 Pwnc 5 yr AC: Llygredd	94
11.6 Pwnc 6 yr AC: Cydlyniant Cymunedol	96
11.7 Pwnc 7 yr AC: Iechyd a Llesiant	102
11.8 Pwnc 8 yr AC: Yr Economi	109

RHAN 4 - Diweddglo ac Argymhellion

12 Diweddglo ac Argymhellion	123
-------------------------------------	------------

ATODIADAU

A Dangosyddion nad Adroddir arnynt bellach yn yr AMB	125
---	------------

B Cyflawni Tai	131
-----------------------------	------------

Contents

Crynodeb Gweithredol

1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Castell-nedd Port Talbot ar 27 Ionawr 2016. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu (Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004⁽¹⁾ a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd)⁽²⁾, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn paratoi Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB).

2 Pwrpas yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLI yn effeithiol ac yn cyflawni ei amcanion; asesu a yw'r polisiau strategol yn gweithio'n ymarferol; asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y fwrdeistref sirol; nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun; ac yn y pen draw penderfynu a oes angen diwygio'r Cynllun mewn unrhyw fodd.

3 Ym mis Ionawr 2020, cychwynnodd y Cyngor adolygiad o'r CDLI yn unol â'r gofyniad statudol o dan Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sef bod CDLIau yn cael eu hadolygu bob pedair blynedd ar ôl eu mabwysiadu. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLI⁽³⁾ i'w gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2020.

4 Y cam cyntaf wedi hynny yn y broses o lunio'r cynllun amnewid yw cyhoeddi Cytundeb Cyflawni'r CDLI (CC), gan nodi'r amserlen a'r cynllun ar gyfer cynnwys y gymuned a ddilynir yn ystod y broses o baratoi'r CDLI Amnewid (CDLIA). Bu oedi wrth lunio'r fersiwn derfynol o'r CC, o ganlyniad i bandemig Covid-19, ond fe'i cyhoeddwyd a chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022, a chychwynnodd y camau ffurfiol cyntaf o waith paratoi'r CDLIA yr un pryd.

5 Nes bod y CDLIA yn cael ei fabwysiadu, mae'n dal yn ofynnol bod y Cyngor yn paratoi AMB o'r CDLI cyfredol. O ganlyniad, bydd AMBau yn dal i gael eu paratoi er mwyn dadansoddi gweithrediad y Cynllun cyfredol a llywio'r gwaith o baratoi'r CDLIA.

6 Hwn yw'r chweched AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2022.

Canfyddiadau Allweddol yr AMB

Gwybodaeth Gyd-destunol

7 Mae Rhan 1 o'r AMB yn darparu crynodeb o'r newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol arwyddocaol yn ystod y cyfnod monitro hwn. Ymhlith y newidiadau i'w nodi mae cyhoeddi (a gohirio wedi hynny) Nodyn Cyngor Technegol newydd (TAN) 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol CNPT 2022 - 2027 *Adfer, Ailosod, Adnewyddu*.

1 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2004/5/contents

2 Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/wsi/2005/2839/contents/made

3 Ar gael yn: www.npt.gov.uk/media/13823/lp-review-report-july-2020.pdf?v=20200709084011

Dadansoddiad Polisi

8 Mae Rhan 2 o'r AMB yn asesu sut mae polisiâu strategol y Cynllun yn perfformio yn erbyn y targedau monitro allweddol a'r canlyniadau a nodwyd, ac a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni.

9 Gan y barnwyd bod nifer o ddangosyddion yr adroddwyd amdanynt yn AMBau⁽⁴⁾ 2020 a 2021 wedi 'sbarduno' adolygiad o'r polisi dan sylw, ac yn sgîl y dyfarniad y byddai hynny'n digwydd fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r CDLI oedd i ddod, nid adroddir ar ddangosyddion sydd eisoes wedi sbarduno'r cyfryw adolygiadau mewn AMBau dilynol; yn hytrach, adroddir arnynt mewn Papurau Pwnc CDLIA perthnasol a baratoir fel rhan o broses Adolygu'r CDLI. Ceir rhestr lawn o'r dangosyddion hyn yn Atodiad A.

10 Mae'r Tabl isod yn rhoi trosolwg o'r fframwaith arfarnu ar gyfer asesu'r dangosyddion sy'n weddill.

Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesu	Gweithredu	Nifer y dangosyddion yn y categori (2021/22)
Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus	Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau	33
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd	Gall fod angen hyfforddiant i Swyddogian a/neu Aelodau	1
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu	4
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Yn dilyn cadarnhad, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0
Dangosydd wedi'i gwblhau	Dim angen monitro na gweithredu pellach	19
Nid yw'r dangosydd yn cael ei fonitro bellach, gan fod TAN1 wedi'i ddileu (Gweler Pennod 6 am ragor o wybodaeth)		1
Dim data ar gael eto		0

11 Mae mwyafrif y dangosyddion yr adroddir amdanynt o hyd yn yr AMB hwn yn parhau i ddangos gweithrediad polisi cadarnhaol (86.8%). O'r pedwar dangosydd yr adroddir amdanynt yn yr AMB sy'n awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu, mae dau yn ymwneud â chyflwyno tai, a dau â thwf economaidd.

Dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol yn cael ei weithredu

Dangosydd	Targed	Sbardun
Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Gwneir cyfanswm darpariaeth o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau tai newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026. [Rhestrir targedau cyflawni blynyddol]	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol 2 flynedd yn olynol.
Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026. [Rhestrir targedau cyflawni blynyddol]	Mae nifer yr unedau tai newydd fforddiadwy a ddarperir yn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronol 2 flynedd yn olynol.
Dangosydd 50: Dangosydd Craidd: Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd ac ehangach trwy ddyrannu tir at ddefnyddiau cyflogaeth.	Datblygu 2.5ha o dir y flwyddyn at ddibenion cyflogaeth, ar gyfartaledd, gyda tharged cronol o 5ha i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd. [Rhestrir targedau cyflawni blynyddol]	Mae swm y tir sy'n cael ei ddatblygu at ddibenion cyflogaeth yn syrthio o dan y targed cronol o 5ha sydd i'w ddatblygu dros unrhyw gyfnod o 2 flynedd, 2 flynedd yn olynol
Dangosydd 53: Dangosydd Lleol: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT. Dangosydd Cyd-destunol: Cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgarwch economaidd, i 76% erbyn 2026	Mae cyfradd gweithgarwch economaidd yn dirywio 2 flynedd yn olynol.

12 Adroddir ar bedwar dangosydd yn yr AMB hwn sy'n awgrymu nad yw polisiau strategol yn cael eu gweithredu'n unol â'r bwriad, dau yn ymwneud â chyflwyno tai a dau ddangosydd economaidd. Adroddwyd yn flaenorol ar y ddau ddangosydd tai (dangosyddion 39 a 41) i awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu'n unol â'r bwriad, ond mae'r rhain yn parhau i gael eu monitro oherwydd Rheoliad 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol)(Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd)⁽⁵⁾, sy'n gofyn bod AMBau yn adrodd ar gyflwyno tai marchnad a fforddiadwy.

13 Adroddwyd ar un o'r dangosyddion economaidd (Dangosydd 50) yn flaenorol hefyd, gan awgrymu nad yw'r strategaeth twf cyflogaeth yn cael ei gweithredu'n unol â'r bwriad, ond mae'n parhau i gael ei fonitro oherwydd ei fod yn Ddangosydd Craidd.

14 Mae Pennod 6, Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy, yn manylu ar y cynnydd o ran cyflwyno tai yn ystod y cyfnod monitro. Mae'n dangos bod cyfanswm net o 100 o dai wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod monitro (yr oedd 60% ohonynt yn dai fforddiadwy a gyflwynwyd trwy Grant Tai Cymdeithasol, a sero yn dai fforddiadwy a gyflwynwyd trwy a.106).

Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

15 Yn ogystal â monitro cyflanwi strategaeth CDLI CNPT, mae'r AMB yn adrodd ar ganlyniadau monitro a wnaed ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd (AC). Mae hyn yn cynnwys nifer o ddangosyddion a nodwyd yn Fframwaith Monitro'r CDLI, gan ychwanegu 12 o ddangosyddion AC sy'n cael eu hasesu ac yr adroddir amdanynt fel rhan o'r AMB. Dengys y Tabl isod fod 61.6% o'r dangosyddion yn cael effaith sydd naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral.

Monitro'r AC

Asesiad	Nifer y Dangosyddion o fewn y Categori
Effeithiau cyffredinol gadarnhaol	81
Effeithiau cymysg	53
Effeithiau cyffredinol negyddol	0
Effaith niwtral	4

RHAN 1 - Cyflwyniad a Chefndir

1 Cyflwyniad

1.0.1 Mabwysiadwyd CDLI CNPT ar 27 Ionawr 2016, ac ar y cyd â Cymru'r Dyfodol mae'n ffurfio cynllun datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Y dogfennau hyn sy'n darparu'r fframwaith cynllunio defnydd tir sy'n ffurfio sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

1.0.2 O dan Adran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd) mae'n ofynnol bod y Cyngor yn monitro effeithiau'r CDLI ac yn cyhoeddi AMB sy'n dadansoddi effeithiolrwydd y CDLI, gan nodi agweddau nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith fel y rhagwelwyd neu nad ydynt yn cael yr effaith ofynnol.

1.0.3 Pwrpas yr AMB yw canfod a yw Strategaeth y CDLI yn effeithiol ac yn cyflawni ei hamcanion; asesu a yw'r polisiau strategol yn gweithio'n ymarferol; asesu effaith y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir; nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun; ac yn y pen draw, penderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun.

Adolygu CDLI CNPT

1.0.4 Yn unol ag Adran 69(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 37 o Reoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru) 2005 (fel y'u newidiwyd), mae'n ofynnol bod y Cyngor yn adolygu'r CDLI o leiaf bob pedair blynedd.

1.0.5 O ganlyniad i'r gofyniad hwn, cychwynnodd y Cyngor adolygiad o'r CDLI ym mis Ionawr 2020. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLI⁽⁶⁾ i'w gyhoeddi mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 2 Gorffennaf 2020.

1.0.6 Y cam cyntaf dilynol ym mhroses y cynllun amnewid oedd cyhoeddi Cytundeb Cyflawni'r CDLI (CC) a'i gyhoeddi, yn nodi'r amserlen a'r cynllun cynnwys y gymuned a ddilyniwr wrth baratoi'r CDLIA. Bu oedi wrth baratoi fersiwn derfynol y CC o ganlyniad i bandemig Covid-19, ond cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, ac mae hynny'n nodi dechrau ffurfiol y gwaith o baratoi'r CDLIA.

1.0.7 Bydd y gofyniad i gynhyrchu AMB ar gyfer y CDLI presennol a fabwysiadwyd, fel rhan annatod o broses y cynllun datblygu statudol yn parhau nes bod y CDLIA wedi'i fabwysiadu.

1 . Cyflwyniad

Fframwaith Monitro CDLI CNPT

1.0.8 Mae Adran 6 o'r CDLI a fabwysiadwyd yn cyflwyno Fframwaith Monitro'r AMB. Mae'n cynnwys cyfanswm o 89 o ddangosyddion, gyda thargedau cyfatebol a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach. Yn dilyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) ym mis Mawrth 2020, gwnaed newidiadau i'r fframwaith monitro fel y nodir yn yr AMB (2020)⁽⁷⁾.

1.0.9 Mae'r Tabl isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a all ddeillio o fonitro, ac mae sawl opsiwn posibl i helpu i roi sylw i ddangosyddion nad ymddengys eu bod yn cyflawni'n unol â'r disgwyl. I gynorthwyo wrth ddehongli'r monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau symlach i nodi sut mae'r dangosydd yn perfformio.

Tabl 1.0.1 Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesiad	Gweithredu	Côd Lliwiau
Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus	Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau	
Nid yw Polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd	Gal fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun	Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Yn dilyn cadarnhad, bydd y polisi'n destun proses adolygu	
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	

1.0.10 Barnwyd bod nifer o ddangosyddion yr adroddwyd amdanynt yn AMBau 2020 a 2021 wedi 'sbarduno' adolygiad o'r polisi dan sylw, a nodwyd y byddai hynny'n digwydd fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r CDLI, oedd i ddod. O ganlyniad, nid adroddir ar y dangosyddion sydd eisoes wedi sbarduno adolygiad o'r fath yn yr AMB hwn ar gyfer 2022, ond parheir i adrodd amdanynt mewn Papurau Pwnc CDLIA perthnasol a baratoir fel rhan o broses Adolygu'r CDLI. Rhestrir y dangosyddion dan sylw yn Atodiad A, ynghyd â manylion y canfyddiadau monitro perthnasol.

1.0.11 Mae'r AMB hefyd yn adrodd am ganlyniadau'r monitro a wnaed ar gyfer yr AC. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddangosyddion a nodwyd yn fframwaith monitro'r CDLI, gan ychwanegu 12 o ddangosyddion AC a asesir ac yr adroddir amdanynt fel rhan o'r AMB. Defnyddir y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd AC:

Monitro'r AC

Asesu	Côd Lliw
Effeithiau cyffredinol gadarnhaol	Green
Effeithiau cymysg	Orange
Effeithiau cyffredinol negyddol	Red
Effaith niwtral	Blue

Strwythur a Chynnwys

1.0.12 Mae strwythur pedair rhan, fel a ganlyn, i'r AMB:

- **Rhan 1: Cyflwyniad a Chefnidir** – sy'n rhoi cyflwyniad ac yn amlinellu'r newid cyd-destunol ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro;
- **Rhan 2: Monitro'r CDLI** – sy'n darparu manylion am ganfyddiadau monitro Dangosyddion y CDLI (yn nhrefn y Cynllun);
- **Rhan 3: Monitro'r AC** – sy'n manylu ar ganfyddiadau monitro Amcanion yr AC; a
- **Rhan 4: Casgliadau ac Argymhellion**

1 . Cyflwyniad

2 Newid Cyd-destunol

2.0.1 Mae'r Bennod hon yn amlinellu newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ystod y cyfnod monitro. Darperir gwybodaeth gyd-destunol bellach sy'n benodol i faes polisi CDLI arbennig, lle bo hynny'n briodol, yn yr adran bolisi berthnasol.

2.1 Y Cyd-destun Cenedlaethol

Polisi a Chanllawiau Cenedlaethol

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydiad Arfordirol

2.1.1 Bwriadwyd dogfen newydd TAN 15 i ddisodli TAN 14 Cynllunio Arfordirol (1998) a TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004). Yn wreiddiol, darparwyd y TAN newydd ym mis Medi 2021, cyn y bwriad i'w gyhoeddi'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr, pan oedd i ddod i rym. I gyd-fynd ag ef mae'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio, sy'n adeiladu ar fap Asesiad Risg Llifogydd Cymru ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer newid yn yr hinsawdd, ac a fwriadwyd i ddisodli'r Map Cyngor Datblygu presennol i'w ddefnyddio yn y broses gynllunio.

2.1.2 Mae'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn newid ac yn diweddarau'r parthau llifogydd er mwyn cymryd yr wybodaeth ddiweddaraf i ystyriaeth, a'r effeithiau a ragwelir o ran y newid yn yr hinsawdd, tra bod y TAN 15 newydd yn rhoi cyngor wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau ynghylch y dull o ymdrin â chynigion datblygu ym mharthau llifogydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

2.1.3 Fodd bynnag, oherwydd bod y canllawiau diwygiedig yn darparu cyd-destun trawiadol wahanol ar gyfer penderfyniadau cynllunio o gymharu â'r fframwaith presennol, ac y gallai effeithio ar ambywiaeth o gynlluniau datblygu ar wahanol gyfnodau o'r broses gynllunio, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyflwyno'r TAN newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio tan fis Mehefin 2023. Bydd hyn yn golygu bod modd ystyried effaith y rhagolygon newid hinsawdd yn llawn a pharatoi Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol ar gyfer holl ardaloedd awdurdodau lleol (gweler y Cyd-destun Rhanbarthol isod).

2.1.4 Bydd y TAN 14 a'r TAN 15 presennol yn parhau mewn grym er mwyn delio â phenderfyniadau ceisiadau cynllunio tan fis Mehefin 2023. Fodd bynnag, bydd angen defnyddio'r TAN 15 newydd ar unwaith i lywio penderfyniadau ynghylch y CDLI Amnewid newydd.

Newidiadau Eraill i'r Cyd-destun Cenedlaethol

Pandemig Covid-19

2.1.5 Yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae'r Fwrdeistref Sirol wedi parhau i deimlo effaith pandemig byd-eang Covid-19, gyda chyfyngiadau ar symud, cymdeithasu a gweithgareddau busnes yn parhau yn ystod llawer o 2021.

2 . Newid Cyd-destunol

2.1.6 Nododd Llywodraeth Cymru y byddai angen ystyried goblygiadau'r pandemig ar gyfer cynlluniau oedd yn dod i'r amlwg, yn arbennig o ran yr economi, tai a materion trafndiaeth ac roedd y newidiadau a gyflwynwyd i Hawliau Datblygu a Ganiateid er mwyn rhoi sylw i faterion dros dro oedd yn deillio o bandemig Covid-19 (er enghraifft, hawliau datblygu a ganiateid dros dro i gefnogi busnesau, megis caniatáu 28 diwrnod ychwanegol ar gyfer defnydd tir a newidiadau defnydd (arbrofol) dros dro yng nghanol trefi) yn parhau mewn grym yn ystod y cyfnod monitro.

Cymraeg 2050: Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg 2022 i 2023 (Mawrth 2022)

2.1.7 Er iddo gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2022 (ac felly o fewn y cyfnod monitro), mae Cynllun Gweithredu Strategaeth y Gymraeg yn nodi'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2022 - 2023 i gyflawni dyheadau Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026

2.1.8 Y ddogfen hon yw rhaglen waith Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd beunyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Cyflwynir y mesurau o dan dair thema:

- Thema 1: cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

2.1.9 Y drydedd thema yw'r un fwyaf perthnasol i'r system gynllunio, ac mae'r meysydd gweithredu yn cynnwys rhoi sylw i effaith perchnogaeth ar ail gartrefi, datblygu capasiti cynllunio ieithyddol ymhlith llunwyr polisi cyhoeddus, a dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 ac Arolwg Defnydd o'r Gymraeg 2019 i 2020, fel bod darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg o ran gallu ieithyddol y boblogaeth a'r defnydd o'r iaith.

Llythyr Gweinidogol: Y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlwrpas ac araeau PV solar

2.1.10 Anfonwyd llythyr at yr holl brif swyddogion cynllunio ym mis Mawrth 2022 gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn egluro'r polisi o ran ymdrin â'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlwrpas (tir BMV).

2.1.11 Er na chyflwynwyd unrhyw ofynion polisi newydd, roedd y llythyr yn egluro, lle gwelir bod tir BMV yn rhan o ddatblygiad arfaethedig arae PV solar, y dylid rhoi cryn bwysau ar ddiogelu tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig, ac oni bai bod ystyriaethau materol pwysig eraill yn dangos y bydd angen gwrthod caniatâd fel arall.

Cymru Sero Net: Cyllideb Carbon 2 (2021 - 2025)

2.1.12 Cyhoeddwyd y Cynllun hwn ym mis Hydref 2021 ac mae'n cyflwyno 123 o bolisiâu a chynigion, ochr yn ochr ag ymrwymadau a chamau gweithredu. Mae'r polisiâu a'r cynigion yn cwmpasu cynhyrchu ynni a gwres; trafnidiaeth; adeiladau preswyl; diwydiant a busnes; amaeth; defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth; rheoli gwastraff; a'r sector cyhoeddus.

Gweithio clyfrach: strategaeth gweithio o bell i Gymru (Mawrth 2022)

2.1.13 Mae'r strategaeth hon yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru o sicrhau bod 30% o weithlu Cymru yn gweithio gartref neu gerllaw. Mae'n cyflwyno manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gweithio o bell, ac yn esbonio sut rydym ni'n bwriadu gwreiddio gweithio o bell yn y tymor hir ar gyfer y gweithle yng Nghymru.

2.1.14 Y weledigaeth yw gwreiddio diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi mwy o opsiynau ar gyfer gweithio o bell yn y gweithle, mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd ag ymrwymiad i waith teg.

Y cynllun plant a phobl ifanc (Mawrth 2022)

2.1.15 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer plant a phobl ifanc:

- Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd, gan gynnwys gwasanaethau blynyddoedd cynnar da a chefnogaeth i rieni neu ofalwyr. Dylen nhw gael eu cefnogi gartref, mewn gofal plant ac yn yr ysgolion, a phan fyddan nhw'n symud rhwng y lleoedd hynny.
- Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu trin yn deg ym myd addysg. Dylen nhw gael eu cefnogi i oresgyn rhwystrau a chyflawni eu potensial.
- Blaenoriaeth: Dylai pob person ifanc gael eu cefnogi ar eu taith drwy addysg, hyfforddiant a hunan-gyflogaeth neu gyflogaeth, ac wrth symud rhwng y manau hyn.
- Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu cefnogi i'w helpu i deimlo'n gryf yn feddyliol ac yn emosiynol.
- Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc gael eu cefnogi i gael cyfle teg mewn bywyd.
- Blaenoriaeth: Dylai fod gan bob plentyn a pherson ifanc gartref da a diogel i fyw ynddo.
- Blaenoriaeth: Dylai pob plentyn a pherson ifanc dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol i aros gyda'u teulu neu ddychwelyd at eu teulu, os oes modd.

2 . Newid Cyd-destunol

2.2 Y Cyd-destun Rhanbarthol

Y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs) a Chynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru (CDS)

2.2.1 Ym mis Ionawr 2021 daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i rym⁽⁸⁾, gan sefydlu'r fframwaith ar gyfer creu Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CJCs). Sefydlodd y Rheoliadau Sefydliadol dilynol y pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol ym mis Ebrill 2021:

- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru 2021;
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru 2021;
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru 2021; a
- Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru 2021⁽⁹⁾

2.2.2 Roedd y Rheoliadau Sefydliadol yn cynnwys y trefniadau cyfansoddiadol craidd ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a manylion allweddol megis aelodaeth a'r swyddogaethau a gyflawnir gan bob Cyd-bwyllgor, sef:

- Cynllunio datblygu strategol;
- Cynllunio trafndiaeth rhanbarthol;
- Pŵer i wneud pethau i hybu neu wella llesiant economaidd pob ardal.

2.2.3 I gyd-fynd â'r Rheoliadau Sefydliadol cafwyd nifer o offerynnau eraill oedd yn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (a'u haelodau) yn destun gofynion priodol o ran goruchwyliaeth, rheolaeth ac ymddygiad o'r cychwyn. Daeth mwyafrif Rheoliadau'r CJCs i rym ym mis Mawrth 2022.

2.2.4 Bydd gofyn bod y CJCs yn paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau) ar gyfer eu rhanbarthau, ynghyd â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bwriad CDSiau yw sicrhau bod materion allweddol, datblygu a seilwaith cysylltiedig yn destun cynllunio integredig a chynhwysfawr ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

2.2.5 Y camau cyntaf fydd bod y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn llunio ac yn cytuno ar Gytundeb Cyflawni'r CDS, ac wedi hynny ar 'Strategaeth a Ffafir' a'r 'Cynllun Adnau', gan ddilyn y dull cyffredinol a ddefnyddir ar gyfer CDLliau. Bydd angen cytuno ar y CDS er mwyn ei gyflwyno ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus. Ar ôl eu mabwysiadu, bydd CDSiau yn sefydlu polisi cynllunio strategol ar y lefel ranbarthol.

Grŵp Cynllunio Rhanbarthol De-orllewin Cymru

2.2.6 Yng ngoleuni'r drefn gynllunio newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru a chyflwyno CDSiau, mae gwaith wedi parhau yng nghyswllt cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol.

8 [Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents](https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents)

9 Mae rhagor o wybodaeth ar gael

yn: <https://gov.wales/consultation-corporate-joint-committees-general-no2-wales-regulations-2021-html>

2.2.7 Yn arbennig, yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae gwaith wedi troi o gwmpas cyflawni Blaenoriaeth 5 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF): Economic Acceleration & Regeneration THrough Innovation (EARTH), sef cynnig i ddatblygu'r trefniadau capasiti, gallu a gweinyddol gofynnol yn Ninas-Ranbarth Bae Abertawe, fel bod modd i'r sector cyhoeddus roi sylw (penodol yn yr achos hwn) i'r swyddogaeth Cynllunio Defnydd Tir ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, canfu Awdurdodau Lleol ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru fod recriwtio'n llwyddiannus i'r swyddi hyn yn heriol; mae hynny wedi cadarnhau bod prinder Cynllunwyr mewn rhai rhannau o Gymru.

2.2.8 Bydd y swyddogion EARTH nid yn unig yn helpu i gynhyrchu tystiolaeth a fydd yn llywio adolygiadau CDLLiau unigol, ond hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith ar CDSiau yn y dyfodol.

2.2.9 Ar ben hynny, penodwyd ymgynghorwyr i baratoi Asesiad Strategol rhanbarthol o Ganlyniadau Llifogydd oedd yn cwmpasu holl Awdurdodau Cynllunio Lleol y rhanbarth, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn 2023 (gweler uchod).

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

2.2.10 Llofnodwyd Bargen Ddinesig Bae Abertawe⁽¹⁰⁾ ar 20 Mawrth 2017 (rhaglen fuddsoddi gwerth £1.3bn sy'n cynnwys 9 prif brosiect a 35 o brosiectau unigol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe⁽¹¹⁾, ac mae disgwyl iddi roi hwb o ryw £1.8bn i'r economi ranbarthol a chynhyrchu bron 10,000 o swyddi newydd o safon uchel).

2.2.11 Elfen arbennig o berthnasol i CNPT yw'r ffaith bod Canolfan Dechnoleg y Bae, ym Mharc Ynni Bae Baglan, wedi cael ei chwblhau ym mis Ionawr 2022. Prosiect gwerth rhyw £7.9m yw hwn, ac mae wedi darparu adeilad 25,000 tr.sg. gyda'r cyfleusterau diweddaraf ar ffurf swyddfeydd modern a lle i labordai, gydag ystod o unedau maint gwahanol ar gyfer cwmnïau sy'n cychwyn a busnesau sefydledig.

2.2.12 Ymhlith y prif brosiectau eraill mae:

- **Cartrefi sy'n Bwerdai** cyfanswm buddsoddiad o £505.5m i hwyluso mabwysiadu dylunio effeithlon o ran ynni a thechnolegau adnewyddadwy mewn cartrefi ar draws y rhanbarth.
- **Seilwaith Digidol** cyfanswm buddsoddiad o £55.3m i gefnogi economi ddigidol lewyrchus ar draws y rhanbarth trwy gysylltu pob cartref a busnes â band eang symudol neu ffeibr llawn; gwella mynediad at fand eang yng nghymunedau gwledig y rhanbarth; a chysylltiadau Di-wifr y Genhedlaeth Nesaf (gan gynnwys buddsoddi mewn 5G).
- **Sgiliau a Doniau** cyfanswm buddsoddiad o £30.0m i gyflwyno 2,200 o gyfleoedd sgiliau a datblygu ychwanegol, ac o leiaf 3,000 o brentisiaethau newydd.

10 <https://www.swanseabaycitydeal.wales>

11 Sir Gaerfyrddin, CNPT, Sir Benfro ac Abertawe

2 . Newid Cyd-destunol

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru (Rhagfyr 2021)

2.2.13 Mae'r Fframwaith Economaidd yn cyflwyno gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer economi de-orllewin Cymru, fel ei bod:

- Yn Gydnerth ac yn Gynaliadwy
- Yn Fentrus ac yn Uchelgeisiol, ac
- Yn Gytbwys ac yn Gynhwysol

2.2.14 Bwriadwyd y ddogfen i helpu i hybu cynllunio a chyflwyno ar y cyd ymhlith partneriaid cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, trwy weithio i gyflawni gweledigaeth a rennir a chfyres o amcanion datblygu economaidd cyffredin.

2.2.15 Mae'n cyflwyno blaenoriaethau economaidd ar gyfer y rhanbarth ar ffurf 3 *Tasg* a ddatblygwyd wrth gynhyrchu Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol de-orllewin Cymru:

- Tasg 1 – Sefydlu de-orllewin Cymru fel arweinydd yn y Deyrnas Unedig ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero net
- Tasg 2 – Adeiladu sylfaen gadarn, gydnerth sydd wedi'i gwreiddio ar gyfer busnes
- Tasg 3 – Tyfu a chynnal yr hyn a gynigir o ran 'profiad de-orllewin Cymru'

2.2.16 Bydd y tair tasg yn cael eu datblygu ymhellach a'u cyflwyno trwy ddull gweithredu ar y cyd ar draws y rhanbarth.

2.3 Y Cyd-destun Lleol

Adolygu'r CDLI a Pharatoi'r CDLI Amnewid

2.3.1 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor Llawn ar Adroddiad Adolygu CDLI y Cyngor ar 2 Gorffennaf 2020. O ganlyniad i oedi yn sgîl pandemig Covid-19 gohiriwyd y gwaith dilynol o lunio fersiwn derfynol Cytundeb Cyflawni (CC) y CDLI a'i gyhoeddi, a dechrau gweithio ar y cynllun amnewid, tan ddechrau 2022. Mae'r CC yn nodi'r amserlen a'r cynllun cynnwys y gymuned a ddilynir wrth baratoi'r CDLIA, a chytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022, gan nodi cychwyn ffurfiol y gwaith o baratoi'r CDLIA.

Map o'r Rhwydwaith Teithio Llesol

2.3.2 Yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013⁽¹²⁾, gorffennodd y Cyngor (yn gweithio gyda Sustrans Cymru) y gwaith o baratoi'r Map o Rwydwaith Teithio Llesol CNPT yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r map yn dangos ble mae llwybrau cerdded a beicio eisoes yn bodoli (Llwybrau Presennol) a ble mae dyheadau o ran uwchraddio neu greu llwybrau newydd sbon yn ystod y 15 mlynedd nesaf (Llwybrau'r Dyfodol), ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo ddiwedd 2021.

Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2022 - 2027: Adfer, Ailosod, Adnewyddu

2.3.3 Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol newydd CNPT ar 28 Chwefror 2022. Mae Adfer, Ailosod, Adnewyddu yn ganlyniad chwe mis o ymgysylltu er mwyn sicrhau ei fod yn enghraifft ddilys o gydweithio rhwng y cyngor, partneriaid, busnesau, trigolion ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol.

2.3.4 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cwmpasu'r cyfnod o 2022 i 2027 ac yn nodi sut bydd y cyngor yn mynd ati i ymadfer wedi pandemig Covid-19 yn y tymor byr, canolig a hwy. Mae'n cyflwyno rhaglen newid strategol y cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sydd â phedwar amcan llesiant:

- Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Bod pob cymuned yn llewyrchus ac yn gynaliadwy.
- Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth.
- Bod pobl leol yn fedrus ac yn cael mynediad at swyddi gwyrdd o safon uchel.

Cynllun Dyletswydd Bioambywiaeth 2020 - 2023

2.3.5 Cyhoeddwyd yr ail fersiwn o Gynllun Dyletswydd Bioambywiaeth CNPT (CDB), oedd yn cwmpasu'r cyfnod o 2020-2023, ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Cynllun yn nodi sut mae'r awdurdod yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd sydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioambywiaeth (Dyletswydd Adran 6).

2.3.6 Mae'r CDB yn amlinellu'r camau sydd eisoes ar waith gan y cyngor, ynghyd â chamau gweithredu pellach a gyflawnir er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd. Mae'r Cynllun yn ymgorffori chwe amcan er mwyn cydymffurfio ag NRAP Cymru Llywodraeth Cymru a'r uchelgais o wyrddroi'r dirywiad o ran bioambywiaeth.

2.3.7 Mae chwe amcan y CDB yn cynnwys gofynion megis:

- Gwreiddio bioambywiaeth mewn penderfyniadau ar bob lefel;
- Rheoli a gwella ein cynefinoedd;
- Gwella ein dealltwriaeth o fioambywiaeth a'r monitro arno; a
- Sefydlu fframwaith ar gyfer cyflawni.

Cynllun Adferiad Economaidd Drafft Castell-nedd Port Talbot (Chwefror 2022)

2.3.8 Nod y Cynllun Adferiad Economaidd drafft yw creu amodau ar gyfer cyfleoedd ymarferol, ystyrlon, y gellir cysylltu â nhw, ar gyfer busnesau a thrigolion. Mae'n nodi pedwar blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- **Economi entrepreneuriaidd a chydnerth:** Cryfhau ein sylfaen o fentrau BaCh – ym mhob sector ac ar draws y fwrdeistref sirol – trwy ddull mwy cydlynus o ymdrin â chefnogaeth, safleoedd a chyllid, a ffocws o'r newydd ar dwf busnesau 'brodorol' cynaliadwy ar lefel gymunedol;

2 . Newid Cyd-destunol

- **Buddsoddi a newid trawsffurfiannol:** Sicrhau buddsoddiad parhaus yn ein prif safleoedd strategol (a chapasiti i gyflawni) yng Nglannau Port Talbot a Bae Baglan; y cyfle allweddol sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd; a'r ystod o gamau gweithredu hirdymor – ond sy'n dod i'r amlwg mewn rhai achosion – i gefnogi datgarboneiddio diwydiannol;
- Lleoedd o safon sy'n gysylltiedig: Buddsoddi yng nghanol ein trefi a'n cymunedau, gan wneud yn fawr o'n hasedau amgylcheddol a'u potensial i ddatblygu'r economi ymwelwyr, a gwella cysylltedd ar gyfer gwaith a dysgu;
- **Sgiliau a chyfleoedd i'r dyfodol:** Datblygu gweithlu medrus a chydnerth, gyda llais cryfach i gyflogwyr.

RHAN 2 - Monitro'r CDLI

3 Strategaeth

3.1 Strategaeth

3.1.1 Seiliwyd y CDLI ar strategaeth twf dan arweiniad cyflogaeth, sy'n defnyddio'r cynnydd a ragwelir mewn swyddi a chynnydd mewn cyfraddau gweithgaredd economaidd i nodi'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ofynnol er mwyn cefnogi'r nifer o swyddi a ragwelir, a fydd yn ei dro yn rhoi syniad o nifer y cartrefi newydd fydd yn angenrheidiol. Mae'r dull gweithredu yn sicrhau bod y strategaethau tai a chyflogaeth yn cyfateb i'w gilydd a bod cyfatebiaeth rhwng nifer y swyddi, y tai, y cyflenwad o lafur a'r lle ar gyfer cyflogaeth.

3.1.2 Mae'r Cynllun yn nodi cyfanswm o 25 amcan wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol:

- Adeiladu cymunedau iach a chynaliadwy;
- Hybu economi gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu unigrywiaeth.

3.1.3 Gan gadw'r amcanion hyn mewn cof, nod Strategaeth y CDLI yw:

Hwyluso twf oddi mewn i CNPT, gyda ffocws ar goridor yr arfordir, ochr yn ochr ag adfywio cymunedau'r cymoedd

3.1.4 Trwy fonitro dangosyddion y CDLI, mae modd asesu i ba raddau mae polisiau'r Cynllun yn llwyddo i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Tabl isod yn rhoi trosolwg crynodol.

Fframwaith Monitro'r CDLI

Asesiad	Gweithredu	Nifer y Dangosyddion ym mhob Categori (2021/22)
Mae'r dangosyddion yn arwydd bod y Polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus	Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau	33
Nid yw Polisiau'r CDLI yn cael eu gweithredu yn y modd a fwriadwyd	Gal fod angen hyfforddiant i Swyddogion a/neu Aelodau	1
Mae'r dangosyddion yn awgrymu bod angen canllawiau pellach, yn ogystal â'r rhai a nodwyd yn y Cynllun	Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol	0
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisi strategol y CDLI mor effeithiol ag y disgwyliid yn wreiddiol	Mae angen rhagor o waith ymchwil ac ymchwiliadau	0

3 . Strategaeth

Asesiad	Gweithredu	Nifer y Dangosyddion ym mhob Categori (2021/22)
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw'r polisi strategol yn cael ei weithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y polisi yn destun proses adolygu	4
Mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw strategaeth y CDLI yn cael ei gweithredu	Ar ôl ei gadarnhau, bydd y CDLI yn destun proses adolygu	0
Dangosydd wedi'i gwblhau	Dim angen monitro na gweithredu pellach	19
Nid yw'r dangosydd yn cael ei fonitro bellach, gan fod TAN1 wedi'i ddileu (Gweler Pennod 6 am ragor o wybodaeth)		1
Dim data ar gael eto		0

3.1.5 Ceir dadansoddiad manylach yn y Penodau sy'n dilyn (Penodau 4-10).

4 Polisiâu Troswaol

4.0.1 Mae CDLI CNPT yn cynnwys pedwar polisi strategol troswaol:

- Polisi Strategol (PS) 1 'Newid yn yr Hinsawdd'
- PS2 'Iechyd'
- PS3 'Cymunedau Cynaliadwy'
- PS4 'Seilwaith'

4.0.2 O dan y polisiâu strategol troswaol hyn mae nifer o bolisiâu strategol ardal-benodol a phwnc-benodol. Mae'r Bennod hon yn adrodd am ganfyddiadau dangosyddion y polisiâu strategol troswaol, ac mae'r penodau sy'n dilyn yn adrodd am ganfyddiadau'r ardal a dangosyddion polisiâu strategol pwnc-benodol ac ardal-benodol.

4.1 PS1 'Newid yn yr Hinsawdd'

4.1.1 Mae PS1 'Newid yn yr hinsawdd' yn cydnabod bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd a datblygiad CNPT yn y dyfodol, ac mae'n amlinellu nifer o fesurau i ddelio ag achosion newid yn yr hinsawdd (mesurau lliniaru) a mesurau yn ymwneud â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd (dulliau addasu).

4.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS1 yn Fframwaith Monitro'r CDLI:

- **Dangosydd 1:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Mae'r dangosydd hwn wedi sbarduno adolygiad ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 2:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r dangosydd hwn wedi sbarduno adolygiad, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 3:** Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.
- **Dangosydd 4:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd.
- **Dangosydd 5:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1.
- **Dangosydd 6:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2. Mae'r dangosydd hwn wedi sbarduno adolygiad, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

4.1.3 O ganlyniad i arfarnu dangosyddion 1 a 2 yn AMB 2020, a dangosydd 6 y llynedd, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS1 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI. Mae'r arfarniad o ddangosyddion 3, 4 a 5 yn dangos bod yr agweddau hyn ar y polisi yn dal i gyrraedd eu targedau (gweler isod).

4 . Polisiâu Trosfwaol

Dangosydd 3: Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.

Tabl 4.1.1 PS1 – Newid yn yr Hinsawdd, Dangosydd 3

Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 3			
Dangosydd	Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.		
Amcan	AM1		
Polisiau Allweddol	PS1	Polisiau Cysylltiedig	PS16; BE1
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Swm y tir maes glas a gollwyd nad oedd wedi'i ddyrannu yn y CDLI.	Dim tir glas yn cael ei gollu yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiad	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
		AMB 2021	
Gweithredu			
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau			
Dadansoddiad			
<ul style="list-style-type: none"> 11 achos o gymeradwyo ar safleoedd tir glas heb eu dyrannu: Y mwyafrif yn anheddau sengl/ddatblygiadau preswyl bychain, ynni adnewyddadwy, neu amaethyddol. Pedwar datblygiad mwy o ran tai/cyflogaeth/twristiaeth. Ni farnwyd bod tir llwyd amgen ar gael yn ymarferol mewn lleoliad addas ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau a gymeradwyd. Bernir bod pob cynnig yn unol â Pholisi BE1. 			

Dangosydd 4: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd

Tabl 4.1.2 PS1 - Newid yn yr Hinsawdd, Dangosydd 4

Polisi Strategol SP1 Dangosydd 4			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiateir mewn lleoliadau cyfleusterau cludo nwyddau wedi'u diogelu.		
Amcan	AM2, AM21, AM22		
Polisiau Allweddol	PS1	Polisiau Cysylltiedig	SP20; TR4

4 . Polisiâu Troswaol

Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiateir mewn lleoliadau cyfleusterau cludo nwyddau wedi'u diogelu.	Ni chaniateir ceisiadau ar safleoedd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad				
<ul style="list-style-type: none"> Ni chafwyd ceisiadau oddi mewn i leoliad cyfleuster nwyddau a ddiogelwyd sy'n cael ei gwmpasu gan Bolisi TR4 (Diogelu Cyfleusterau Nwyddau) yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. 				

Dangosydd 5: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1.

Tabl 4.1.3 PS1 - Newid yn yr Hinsawdd, Dangosydd 5

Polisi Strategol SP 1 Dangosydd 5				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1.			
Amcan	AM1			
Polisiâu Allweddol	PS1	Polisiâu Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1	Ni chaniateir ceisiadau ar gyfer datblygiadau hynod fregus oddi mewn i ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais ar gyfer datblygiad hynod fregus nad yw'n bodloni holl ofynion TAN 15.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad				

4 . Polisiâu Troswaol

- Cafodd dau gynnig datblygu newydd eu cymeradwyo o fewn neu'n rhannol o fewn Parth C1, y ddau ar gyfer adeiladau diwydiannol.
- Barnwyd bod y ddau gynnig yn unol â gofynion TAN 15.

4.2 PS2 'Iechyd'

4.2.1 Mae PS2 'Iechyd' yn bolisi strategol troswaol sy'n ceisio lleihau'r lefelau uchel o iechyd gwael tymor hir a salwch yn CNPT trwy wneud y canlynol:

- Gofyn bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli mewn mannau cynaliadwy, oddi wrth ffynonellau sŵn, llygredd aer a pherygl llifogydd, ac yn cael eu hadeiladu at safonau amgylcheddol manwl er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ynni;
- Ceisio cadw ystod o gyfleusterau hamdden, adloniant, iechyd, cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol er mwyn annog ffordd o fyw sy'n iachach, yn fwy actif ac yn fwy diogel;
- Sicrhau bod yr holl drigolion yn cael mynediad at fannau agored digonol i wella iechyd corff a meddwl;
- Gwella hygyrchedd rhwng cymunedau ac annog teithio llesol lle bynnag y bo modd;
- Darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd i leihau cyfraddau diweithdra a segurdd economaidd; a
- Sicrhau amgylchedd adeiledig a naturiol o safon uchel.

4.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS2:

- **Dangosydd 7:** Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.
- **Dangosydd 8:** Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio.
- **Dangosydd 9:** Paratoi CCA yn ymwneud â dylunio. Cafodd y CCA Dylunio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017 ac nid oes angen monitro na gweithredu pellach yng nghyswllt y dangosydd hwn.

4.2.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS2 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 7: Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol.

Tabl 4.2.1 PS2 - Iechyd, Dangosydd 7

Polisi Strategol SP 2 Dangosydd			
Dangosydd	Newid, math a dosbarthiad gofodol net mannau agored a chyfleusterau cymunedol		
Amcan	AM2		
Polisiâu Allweddol	PS2	Polisiâu Cysylltiedig	PS10, OS2, SC2
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno

4 . Polisiâu Troswaol

Newid, math a dosbarthiad gofodol net manau agored a chyfleusterau cymunedol	Ni chaniateir colli cyfleusterau yn groes i'r fframwaith polisi	Mabwysiadu	2016	Colli un cyfleuster yn groes i'r fframwaith polisi
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> O fewn y cyfnod monitro hwn ni chaniatawyd ceisiadau a fyddai'n arwain at golli manau agored a/neu gyfleusterau cymunedol yn groes i'r fframwaith polisi. 				

Dangosydd 8: Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.

Tabl 4.2.2 PS2 – Iechyd, Dangosydd 8

Polisi Strategol SP 2 Dangosydd 8				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio			
Amcan	AM2; AM23; AM24			
Polisiâu Allweddol	PS2	Polisiâu cysylltiedig	BE1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau cynllunio a wrthodwyd ar sail dylunio.	Ni chaniateir cais yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Ar wahân i gynigion graddfa fach/perchnogion tai, gwrthodwyd 10 o geisiadau am resymau oedd yn cynnwys sail dylunio yn ystod y cyfnod monitro. Ni chaniatawyd ceisiadau'n groes i'r fframwaith polisi dylunio. 				

4 . Polisiâu Trosfwaol

4.3 PS3 'Cymunedau Cynaliadwy'

4.3.1 Bwriad PS3 'Cymunedau Cynaliadwy' yw hwyluso cyflwyno rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy, iach a chydlynus trwy nodi a gweithredu hierarchaeth aneddiadau, terfynau a ddiffiniwyd ar gyfer aneddiadau a diogelu cyfleusterau cymunedol.

4.3.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS3:

- **Dangosydd 10:** Faint o ddatblygiadau sylweddol ar ffurf manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau y tu allan i drefi.
- **Dangosydd 11:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.

4.3.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS3 yn cael ei weithredu'n

Dangosydd 10: Faint o ddatblygiadau sylweddol ar ffurf manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau y tu allan i drefi.

Tabl 4.3.1 PS3 – Cymunedau Cynaliadwy, Dangosydd 10

Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 10				
Dangosydd	Faint o ddatblygiadau sylweddol ar ffurf manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau y tu allan i drefi.			
Amcan	AM2, AM3, AM4			
Polisiâu Allweddol	PS3	Polisiâu Cysylltiedig	PS2; CC1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y datblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiatawyd yng nghanol trefi ac mewn canolfannau tu allan i drefi.	Ni chaniateir ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd dau gynnig ar gyfer datblygiadau sylweddol (arwynebedd llawr mewnol o fwy na 1000m2) mewn lleoliadau y tu allan i ganolfannau; un ar gyfer cyrchfan antur yng Nghroeserw/Cymer, sy'n cynnwys elfennau manwerthu a hamdden sylweddol, a'r llall ar gyfer y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn, sy'n cynnwys cryn dipyn o le ar gyfer swyddfeydd. • Barnwyd bod y ddau gynnig yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. 				

Dangosydd 11: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.**Tabl 4.3.2 PS3 – Cymunedau Cynaliadwy, Dangosydd 11**

Polisi Strategol SP 3 Dangosydd 11			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.		
Amcan	AM2, AM3, AM4		
Polisiau Allweddol	PS3	Polisiau Cysylltiedig	PS2; CC1
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.	Dim caniatáu ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
		AMB 2021	
Gweithredu			
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.			
Dadansoddiad:			
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd cyfanswm o 24 o geisiadau ar gyfer cynigion datblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro. • Roedd y ceisiadau a gymeradwywyd yn ystod cyfnod y cynllun yn amrywiol, ac yn cynnwys fferm wynt, cais ar gampws y Brifysgol, adeiladau amaethyddol, anheddau amnewid, a chynigion ar gyfer y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd yn Onllwyn. • Barnwyd bod yr holl geisiadau a gymeradwywyd yn cyd-fynd â Pholisi CC1. • O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. 			

4.4 PS4 'Gofynion Seilwaith'

4.4.1 Mae PS4 'Gofynion Seilwaith' yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn gwneud defnydd effeithlon o seilwaith sydd eisoes yn bodoli, a lle bo angen, yn darparu ar gyfer seilwaith newydd a rhwymedigaethau cynllunio (fel y nodir yn a.106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i liniaru effeithiau'r datblygiad.

4.4.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS4:

4 . Polisiâu Troswaol

- **Dangosydd 12:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle sicrhawyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 13:** Paratoi CCA yn ymwneud â Rhwymedigaethau Cynllunio. Cafodd y CCA Rhwymedigaethau Cynllunio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen gweithredu na monitro pellach yn achos y dangosydd hwn.

4.4.3 O ganlyniad i'r arfarniad blaenorol o ddangosydd 12, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS4 yn cyflawni ei amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI.

5 Polisiau Ardal

5.0.1 Mae CDLI CNPT yn cynnwys dwy ardal strategaeth (Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir ac Ardal Strategaeth y Cymoedd).

Ffigur 5.1 Ardaloedd Strategaeth CDLI CNPT



5.0.2 Mae CDLI CNPT yn cynnwys polisiau strategol ar sail ardal ar gyfer y ddwy ardal strategaeth:

- PS5 'Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir'; a
- PS6 'Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd'.

5.1 PS5 'Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir'

5.1.1 Mae PS5 'Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir' yn nodi sut bydd y strategaeth i hwyluso twf yn CNPT yn cael ei chymhwyso yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir trwy nifer o fesurau a pholisiau ardal-benodol, gan gynnwys nifer o ddyraniadau tai, dyraniadau cyflogaeth, cynlluniau adfywio defnydd cymysg, campws y brifysgol a nifer o gynlluniau priffyrdd.

5.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS5:

5 . Polisiau Ardal

- **Dangosydd 14:** Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd o fewn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosyddion 15-18:** Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Adfywio Strategol (AAS) Coed Darcy (tai, cyflogaeth, Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy a gwelliannau i C43 (yr M4)). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2019 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosyddion 19 a 20:** Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (tai; cyflogaeth). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2020 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 21:** Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (Manwerthu).
- **Dangosydd 22:** Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr (Cwblhau Ffordd yr Harbwr (FfDdY)). Cwblhawyd Ffordd yr Harbwr yn 2014; nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 23:** Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Fframwaith Datblygu Canol y Dref a Glannau'r Harbwr ym Mhort Talbot. Nid yw'r dangosydd hwn yn cael ei fonitro bellach yn dilyn canfyddiadau AMB 2019.
- **Dangosyddion 24 a 25:** Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd (tai a manwerthu).
- **Dangosyddion 26 a 27:** Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Ysgol Gyfun Glanafan (tai a manwerthu). Mae'r datblygiad hwn bellach wedi'i gwblhau ac o ganlyniad nid yw'r dangosyddion hyn yn cael eu monitro bellach.
- **Dangosyddion 28 a 29:** Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Lido Afan (tai a thwristiaeth). Cafodd y dangosyddion hyn eu sbarduno yn 2020 ac nid ydynt yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 30:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith monitro.

5.1.3 O ganlyniad i arfarnu dangosyddion 14-20, 23, 28 a 29 mewn AMBau blaenorol, a'r rhesymau a roddwyd uchod, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS5 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI. Mae arfarnu'r dangosyddion sy'n weddill yn dangos bod yr agweddau hyn ar y polisi yn dal i gyrraedd eu targedau (gweler isod).

Dangosydd 21: Swm a math y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.

Tabl 5.1.1 PS5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 21

Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 21	
Dangosydd	Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.

Amcan	AM5; AM13			
Polisiau Allweddol	PS5	Polisiau Cysylltiedig	SRA2; PS12; R1/3	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm a math y datblygiad newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn AAS Glannau'r Harbwr.	Cyflawni'r datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol y Dref ym Mhort Talbot.	Mabwysiadu	2016	Ni chyflawnir y datblygiad manwerthu yn AAS Glannau'r Harbwr yn unol â Fframwaith Datblygu Glannau'r Harbwr a Chanol y Dref ym Mhort Talbot.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.				
Analysis:				
<ul style="list-style-type: none"> • Dim ceisiadau manwerthu yng Nglannau'r Harbwr yn ystod y cyfnod monitro. • Mae busnes sefydledig sydd eisoes yn bodoli yn parhau i fasnachu'n unol â'r fframwaith datblygu. 				

Dangosydd 24: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

Tabl 5.1.2 PS5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 24

Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 24				
Dangosydd	Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.			
Amcan	AM5			
Polisiau Allweddol	PS5	Polisiau Cysylltiedig	AAC1/1 PS7, T1/7	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.	Cyflwyno 50 o unedau tai newydd, y disgwylir iddynt gychwyn o 2016/17.	Mabwysiadu	2016	Nid yw'r datblygiad tai yng Nghynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd yn cael ei gyflawni o 2016/17.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				

5 . Polisiâu Ardal

Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.

Analysis:

- Mae 12 uned a adeiladwyd gan Grŵp Tai Coastal yn awr wedi'u cwblhau.
- Ni ddaeth ceisiadau preswyl pellach i law yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd 25: Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.

Tabl 5.1.3 PS5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 25

Polisi Strategol SP 5 Dangosydd 25				
Dangosydd	Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.			
Amcan	AM5			
Polisiâu Allweddol	PS5	Polisiâu Cysylltiedig	AACA1/1; PS12, A1/1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Canol Tref Castell-nedd.	Cyflawni elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd: Cyfnod 1 erbyn 2016; Cyfnod 2 erbyn 2020.	Mabwysiadu	2016	Nid yw elfen fanwerthu Cynllun Adfywio Canol Tref Castell-nedd yn cael ei chyflawni'n unol â'r terfynau amser a nodwyd.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad				
<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd cydsyniad ychwanegol ar gyfer rhan o gyfnod 2 o gynllun canol y dref (datblygiad manwerthu a hamdden) yn 2020, sy'n cael ei adeiladu yn ystod y cyfnod monitro. • Mae'r holl gynlluniau manwerthu cyfnod 2 yn awr yn cael eu cyflwyno. 				

Dangosydd 30: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 5.1.4 PS5 – Datblygu yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir, Dangosydd 30

PS5 Dangosydd 30

Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.			
Amcan	AM5			
Polisiau Allweddol	PS5	Polisiau Cysylltiedig	CCUC1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno	
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar Gampws y Bae ar gyfer defnyddiau sy'n groes i'r fframwaith polisi.	Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd Prifysgol Abertawe i gael ei gyflwyno erbyn 2015: Mai 2013 – Gwaith i gychwyn. Mai 2014 – Yr adeiladau cyntaf wedi'u cwblhau Mai 2015 – Yr holl adeiladau amhreswyl wedi'u cwblhau Medi 2015 – Llety'r myfyrwyr wedi'i gwblhau.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Rhodddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y campws ym mis Awst 2012, a chymeradwywyd materion dilynol a neilltuwyd ar gyfer Cyfnod 1 ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r CDLI yn dyrannu tir i ddarparu ar gyfer datblygu oddi mewn i'r cais amlinellol sydd eisoes yn bodoli ac ardaloedd ychwanegol ar y safle, er mwyn ehangu ymhellach. Mae tir ar gael hefyd i'r gorllewin o'r safle, oddi mewn i ffin weinyddol Cyngor Abertawe. Mae'r targedau a geir yn y fframwaith monitro hwn yn cyfeirio at ddatblygu Cyfnod 1a o'r Campws, a oedd yn cynnwys llawer o'r prif adeiladau oedd yn ofynnol er mwyn i'r campws agor yn ffurfiol ym mis Medi 2015, megis y Neuadd Fawr, yr Hwb Arloesedd, y Cyfleuster Gweithgynhyrchu, llety preswyl ac adeiladau academiaidd. O fewn y cyfnod monitro, rhodddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer pedwar cais – mân ddatblygiadau o fewn y campws yn unig. Barnwyd bod pob un o'r rhain yn unol â Pholisi CCUC1 ac fe'u cymeradwywyd. 				

5.2 PS6 'Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd'

5.2.1 Mae PS6 'Datblygu yn Ardal Strategaeth y Cymoedd' yn cyflwyno'r prif fesurau a roddir ar waith i weithredu'r strategaeth ofodol, sef adfywio Ardal Strategaeth y Cymoedd. Mae'r strategaeth yn troi o gwmpas gwella gwydnwch economaidd, gan annog twristiaeth, cyflogaeth ar raddfa fach a datblygiadau economaidd eraill, arallgyfeirio oddi wrth ddiwydiannau traddodiadol, a nodi meysydd twf lle bydd datblygiad wedi'i grynhoi, gyda'r nod o ledaenu effeithiau'r adfywio dros ardal ehangach.

5.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS6:

- Dangosydd 31:** Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

5 . Polisiau Ardal

- **Dangosydd 32:** Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Pontardawe. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 33:** Nifer yr unedau tai newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd yn Ardal Twf Strategol Cwm Nedd Uchaf. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2021, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosyddion 34 a 35:** Swm y datblygu newydd a ganiatawyd ac a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Adfywio Defnydd Cymysg Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd (tai a manwerthu). Sbardunwyd **Dangosydd 34 yn 2021**. Ni sbardunwyd Dangosydd 35, ond derbyniwyd y bydd angen ailasesu'r dyraniad fel rhan o adolygiad y cynllun. O ganlyniad, nid yw'r dangosyddion hyn yn cael eu dadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 36:** Paratoi CCA ynghylch Rhodfa'r Parc, Glyn-nedd. Nid yw'r dangosydd hwn yn cael ei fonitro bellach, yn dilyn canfyddiadau AMB 2019.
- **Dangosydd 37:** Nifer y cynigion bywyd a gwaith a ganiatawyd. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 38:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn Rheola. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2021 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.

5.2.3 O ganlyniad i arfarnu'r dangosyddion uchod mewn AMBau blaenorol a'r rhesymau a roddwyd uchod, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS6 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI.

6 Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.0.1 Yn dilyn ymlaen o'r polisiau ardal, mae polisiau pynciol CDLI CNPT wedi'u grwpio o dan y themâu canlynol:

- Adeiladu cymunedau iach, cynaliadwy;
- Hybu economi gynaliadwy;
- Gwerthfawrogi ein hamgylchedd;
- Cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a
- Pharchu unigrywiaeth

6.0.2 O fewn pob thema mae polisiau strategol a pholisiau manwl. Yn unol â Fframwaith Monitro'r CDLI, mae'r AMB yn adrodd am ddangosyddion sy'n ymwneud â'r polisiau strategol canlynol:

- PS7 'Gofyniad o ran Tai';
- PS8 'Tai Fforddiadwy';
- PS9 'Sipsiwn a Theithwyr'; a
- PS10 'Mannau Agored'

6.1 PS7 'Gofyniad o ran Tai'

6.1.1 Mae PS7 'Gofyniad o ran Tai' yn manylu ar y gofynion tai yn ystod cyfnod y Cynllun (7,800 o unedau yn ystod y cyfnod 2011-2026).

6.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS7:

- **Dangosydd 39:** Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
- **Dangosydd 40:** Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o Astudiaeth gyffredol Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN1).

6.1.3 Nid yw'r Cyngor yn adrodd am ddangosydd 40 bellach, wedi i TAN 1 gael ei ddi-ddymu ym mis Mawrth 2020. Yn hytrach, yn unol â'r dull gweithredu a gyflwynwyd trwy'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (2020), mae'r Cyngor wedi paratoi Taflwybr Tai wedi'i ddiweddarau ac wedi cymharu'r tai a gyflwynwyd yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (GBC). Rhoddir sylw i hyn ar ôl dangosydd 39.

6.1.4 O ganlyniad i arfarnu dangosydd 39 a dadansoddi'r taflwybr tai a'r GBC, daethpwyd i'r casgliad nad yw PS7 yn cyflawni ei amcanion ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI (gweler isod).

Dangosydd 39: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Tabl 6.1.1 PS7 – Gofyniad o ran Tai

PS7 Dangosydd 39							
Dangosydd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.						
Amcan	AM7						
Polisiau allweddol	PS7	Polisiau cysylltiedig		SP2, H1			
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Sbardun			
Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Cyflwynir cyfanswm darpariaeth o 8,760 o unedau tai newydd er mwyn sicrhau bod isafswm o 7,800 o unedau newydd yn cael eu cyflwyno erbyn 2026. Targedau Blynyddol: 2011/12 - 262 2012/13 - 287 2013/14 - 301 2014/15 - 386 2015/16 - 486 2016/17 - 549 2017/18 - 625 2018/19 - 686 2019/20 - 698	Mabwysiadu	2016	Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronno1 2 flynedd yn olynol.			
		AMB 2017					
		AMB 2018					
		AMB 2019					
		AMB 2020					
		AMB 2021					
		Gweithredu					
		Bydd y Polisi'n destun proses adolygu.					

Dadansoddiad

6.1.5 Mae'r CDLI yn darparu ar gyfer 8,760 o unedau tai er mwyn cyflwyno'r 7,800 o anheddau sy'n ofynnol i fodloni'r strategaeth twf ar sail economaidd erbyn 2026. Mae'r tabl canlynol yn dangos sut cyflwynwyd tai yn erbyn y targedau blynyddol o fewn y fframwaith monitro.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Tabl 6.1.2 Cyfanswm Nifer y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn (CDLI CNPT)

Blwyddyn	Targed Blynyddol (CDLI CNPT)	Union Nifer y Tai a Gwblhawyd	Targed Cronnol (CDLI CNPT)	Nifer Cronnol a Gwblhawyd	Nifer Cronnol a Gwblhawyd yn erbyn y Targed (CDLI CNPT)	Nifer Cronnol a Gwblhawyd fel % o'r Targed (CDLI CNPT)
2011/12	262	277	262	277	15	106%
2012/13	287	303	549	580	31	106%
2013/14	301	262	850	842	-8	99%
2014/15	386	314	1,236	1,156	-80	94%
2015/16	486	214	1,722	1,370	-352	80%
2016/17	549	184	2,271	1,554	-717	68%
2017/18	625	119	2,896	1,673	-1,223	58%
2018/19	686	276	3,582	1,949	-1,633	54%
2019/20	698	259	4,280	2,208	-2,072	52%
2020/21	676	149	4,956	2,357	-2,599	48%
2021/22	647	100	5,603	2,457	-3,146	44%

6.1.6 Dengys y tabl uchod fod cyflwyno tai ar draws CNPT yn dal i syrthio ar ôl y targedau a geir yn y fframwaith monitro. Casglwyd ffigurau cwblhau tai o drafodaethau gyda datblygwyr a thrwy adolygu data cwblhau o gofnodion y Cyngor ynghylch Rheoli Adeiladu a Threth y Cyngor. Cofnodwyd cyfanswm net o 100 o dai a gwblhawyd ar safleoedd mawr a bach. Mae'r ffigur hwn yn dal yn sylweddol is na'r targed o 647 o anheddau a geir yn y fframwaith monitro.

6.1.7 Ers dyddiad gwaelodlin y CDLI (2011), cyfanswm nifer y tai a gwblhawyd yw 2,457 o anheddau. O gymharu â'r targed blynyddol cronnool o 5,603 yn y fframwaith monitro, mae hyn yn dangos bod cyfraddau cwblhau yn dal i syrthio o dan y targed, ac mai 44% yn unig o'r targed blynyddol cronnool a gyflwynwyd hyd yma.

6.1.8 Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd LIC y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), oedd yn cyflwyno gofyniad bod AMBau cynlluniau a fabwysiadwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr yn cynnwys Taflywyr Tai wedi'i ddiweddarau, ac yn cymharu'r union dai a gyflwynwyd yn erbyn y GBC.

6.1.9 GBC CNPT yw 495 o unedau, a ddangosir gan linell ddu yn y graff a gyflwynir yn Ffigur 6.1 isod.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Tabl 6.1.3 Cyfanswm y Tai a Gwblhawyd fesul Blwyddyn (GBC)


Blwyddyn	Targed (GBC)	Union Nifer y Tai a Gwblhawyd	Targed Cronnol (GBC)	Nifer Cronnol a Gwblhawyd	Nifer Cronnol a Gwblhawyd yn erbyn y Targed (GBC)	Nifer Cronnol a Gwblhawyd fel % (GBC)
2011/12	495	277	495	277	-218	56%
2012/13	495	303	990	580	-410	59%
2013/14	495	262	1,485	842	-643	57%
2014/15	495	314	1,980	1,156	-824	58%
2015/16	495	214	2,474	1,370	-1,105	55%
2016/17	495	184	2,970	1,554	-1,416	52%
2017/18	495	119	3,465	1,673	-1,792	48%
2018/19	495	276	3,960	1,949	-2,011	49%
2019/20	495	259	4,455	2,208	-2,247	50%
2020/21	495	149	4,950	2,357	-2,593	48%
2021/22	495	100	5,445	2,457	-2,970	45%

6.1.10 Mae graff y taflywbr (Ffig. 6.1) a'r tabl manylach, 'Cyflwyno Tai yn CNPT' (Ffig. 6.2), yn dangos y diffyg cronnool o ran yr hyn a gyflwynwyd hyd yma. Cafodd union nifer y tai a gwblhawyd eu plotio ar gyfer y cyfnod monitro hwn a blynyddoedd blaenorol, ac maent yn dangos, ym mhob blwyddyn ers gwaelodlin y CDLI, fod y tai a gyflwynwyd yn sylweddol is na llinell y GBC, sef 495 o unedau.

6.1.11 Gan ddefnyddio cyfnodau a chyflwyno safleoedd (a geir yn Atodiad B), mae'r cyflenwad tai ar gyfer blynyddoedd i ddod wedi cael ei blotio ar y graff ar gyfer pob un o'r blynyddoedd sy'n weddill yn y cynllun. Oherwydd y tangyflawni sylweddol ym mhob blwyddyn o'r cynllun hyd yma, cydnabyddir na fydd y CDLI yn cyflwyno'r gofyniad tai llawn o 7,800 o'r cyfanswm cyflenwad tai o 8,760 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Mae nifer y tai a gwblhawyd hyd yma a'r hyn sy'n weddill o'r cyflenwad yn creu cyfanswm o 4,253, sydd ryw 52% o dan y ddarpariaeth dai wreiddiol, sef 8,760.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Ffigur 6.1 Y Taflwybr Tai



6.1.12 Er mwyn llywio'r Taflwybr Tai, ysgrifennodd y Cyngor at holl dirfeddianwyr safleoedd oedd â chaniatâd cynllunio a safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI i ganfod y terfynau amser oedd yn cael eu rhagweld ar gyfer cyflwyno. Yn dilyn paratoi'r Taflwybr Tai, anfonodd y Cyngor y Taflwybr Tai drafft at ei grwp rhanddeiliaid i gasglu sylwadau ar y fethodoleg, y rhagdybiaethau a'r casgliadau. Fel y manylir yn Atodiad B, ymateb y rhanddeiliaid oedd peidio ag anfon sylwadau, neu gytuno â'r casgliadau a nodwyd.

6.1.13 Mae'r Taflwybr Tai y manylir arno uchod ac isod yn dangos cynnydd graddol yn nifer y tai a gwblheir ar hyd gweddill cyfnod y Cynllun. Mae'r Cyngor wedi bod yn ofalus wrth gynnwys safleoedd, ac mae'n cydnabod bod y niferoedd yn is na'r GBC. Roedd Adroddiad Adolygu'r CDLI, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020, yn nodi'r diffyg o ran nifer y tai a gyflwynwyd fel un o'r prif faterion y byddai angen rhoi sylw iddynt yn y CDLIA. Mae'r Cyngor wedi dechrau ar y gwaith o adolygu'r CDLI ym mis Ionawr y cyfnod monitro hwn, a bydd yn ymgysylltu â hyrwyddwyr safleoedd a ddyrannwyd sydd heb eu datblygu i ganfod pam nad yw safleoedd wedi cael eu cynnig i'w datblygu. Bydd y Taflwybr Tai yn parhau i gael ei adolygu'n flynyddol, a bydd unrhyw newidiadau yn y rhagdybiaethau o ran tueddiadau adeiladu ar safleoedd mawr, safleoedd bach a safleoedd annisgwyl yn cael eu haddasu.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Ffigur 6.2 Cyflwyno Tai yng Nghastell-nedd Port Talbot

LDP Year	1 11-Dec	2 Dec-13	3 13/14	4 14/15	5 15/16	6 16/17	7 17/18	8 18/19	9 19/20	10 20/21	11 21/22	12 22/23	13 23/24	14 24/25	15 25/26	16 2026/27 (01/04-31/12/2026)
Actual Completions Large	56	56	58	47	52	38	49	62	15	48	45					
Actual Completions Small Sites	221	247	204	267	162	146	70	214	244	101	55					
Anticipated Completions Allocated Sites During Year												29	72	126	208	226
Anticipated Landbank Completions During Year												34	68	148	202	178
Anticipated Completions Large Windfall During Year												20	86	36	25	40
Anticipated Completions Small Windfall During Year												8	102	53	24	6
Windfall Allowance														35	35	35
Total Actual Completions During Year	277	303	262	314	214	184	119	276	259	149	100					
Anticipated Annual Build Rate												91	328	398	494	485

6.2 PS8 'Tai Fforddiadwy'

6.2.1 Nod CDLI CNPT yw cyflwyno cyfuniad a chyflenwad priodol o dai. Mae PS8 'Tai Fforddiadwy' yn nodi'r gofynion o ran cyflwyno tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun (1,200 o unedau tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y Cynllun, sef 2011-2026) a'r dull o ymdrin â chyflwyno tai fforddiadwy.

6.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS8:

- **Dangosydd 41:** Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
- **Dangosydd 42:** Newidiadau o ran gwerthoedd gweddilliol ar draws is-farchnadoedd y chwe ardal (1) Port Talbot; 2) Castell-nedd; 3) Pontardawe; 4) Castell-nedd a Chwm Dulais; 5) Abertawe a Dyffryn Aman; a 6) Cwm Afan). Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 43:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd oedd yn eithriadau o ran tai fforddiadwy. Sbardunwyd y dangosydd hwn yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 44:** Paratoi CCA ynghylch Tai Fforddiadwy. Cafodd y CCA Tai Fforddiadwy ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

6.2.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad nad yw PS8 yn cyflawni ei amcanion ac y dylid ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI. O ganlyniad, nid adroddir am ddangosyddion 42, 43 a 44.

Dangosydd 41: Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.

Tabl 6.2.2 PS8 – Tai Fforddiadwy, Dangosydd 41

Polisi Strategol SP 8 Dangosydd 41	
Dangosydd	Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.
Amcan	AM8

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Polisiau Allweddol	PS8	Polisiau Cysylltiedig		PS2; AH1
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer yr anheddau net ychwanegol fforddiadwy a marchnad gyffredinol a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Cyflwyno 1,200 o unedau tai fforddiadwy erbyn 2026.	Mabwysiadu	2016	Mae nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd o fewn y Fwrdeistref Sirol yn syrthio o dan y gofyniad cronno1 2 flynedd yn olynol.
	Targedau Blynnyddol:	AMB 2017		
	2011/12 - 7	AMB 2018		
	2012/13 - 5	AMB 2019		
	2013/14 - 22			
	2014/15 - 37			
	2015/16 - 72			
	2016/17 - 90			
	2017/18 - 115			
	2018/19 - 130			
	2019/20 - 124			
	2020/21 - 120			
	2021/22 - 111			
	2022/23 - 102			
2023/24 - 90				
2024/25 - 89				
2025/26 - 86				
Gweithredu				
Bydd y Polisi'n destun proses adolygu.				

Y Cynllun Datblygu Lleol: Adroddiad Monitro Blynnyddol (Hydref 2022)

Dadansoddiad

6.2.4 Mae'r tabl canlynol yn dangos sut cyflwynir unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio (h.y. trwy gytundebau a.106) yn erbyn y targedau blynnyddol sy'n rhan o'r fframwaith monitro:

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

Tabl 6.2.3 Cwblhau Tai Fforddiadwy fesul Blwyddyn

Blwyddyn	Targedau Blynyddol	Union Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy a Gwblhawyd	Targed Cronnol	Tai Cronnol a Gwblhawyd	Cwblhau Cronnol yn erbyn y Targed
2011/12	7	11	7	11	4
2012/13	5	0	12	11	-1
2013/14	22	0	34	11	-23
2014/15	37	23	71	34	-37
2015/16	72	8	143	42	-101
2016/17	90	0	233	42	-191
2017/18	115	8	348	50	-298
2018/19	130	0	478	50	-428
2019/20	124	18	602	68	-534
2020/21	120	4	722	72	-650
2021/22	111	0	833	72	-761

6.2.5 Dengys y tabl uchod fod cyflwyno unedau tai fforddiadwy trwy'r system gynllunio ar draws CNPT yn dal yn sylweddol is na'r targedau a geir yn y fframwaith monitro.

6.2.6 Ers dyddiad sylfaen y CDLI (2011), cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd yw 72 o unedau. Er bod cyflwyno unrhyw nifer o dai fforddiadwy yn gadarnhaol, a bydd yn cael effaith cadarnhaol ar gydlyniant cymunedol ac yn helpu i ymateb i'r angen am dai fforddiadwy yn CNPT, o gymharu hyn yn erbyn y targed cronnool blynyddol o 833, mae'n dangos bod lefel y cwblhau yn dal yn sylweddol o dan y targed.

6.2.7 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflwyno tai fforddiadwy a chyflwyno tai ar y lefel ehangach, ac mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r ffaith nad yw safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLI yn dod trwy'r system gynllunio fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Cyflawnwyd nifer o safleoedd a ddyrannwyd gan LCCiaid, ond dim ond gyda chefnogaeth y Grant Tai Cymdeithasol y mae'r safleoedd yn dod yn ddichonadwy.

6.2.8 Gan fod pwynt sbarduno'r polisi wedi cael ei gyrraedd a bod y polisi'n amlwg heb gyflawni ei amcanion, bydd y polisi'n cael ei ailasesu fel rhan o'r adolygiad. Rhoddir sylw i'r holl ffactorau sy'n dylanwadu ar gyflwyno tai, gan gynnwys lefel a dosbarthiad gofodol twf, dichonoldeb safleoedd a chyfyngiadau ar safleoedd sydd eisoes yn bodoli.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.3 PS9 'Sipsiwn a Theithwyr'

6.3.1 Mae gan CNPT Gymuned sefydledig o Sipsiwn a Theithwyr. Mae PS9 'Sipsiwn a Theithwyr' yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer sicrhau bod darpariaeth ddigonol o leiniau ar gyfer anghenion y gymuned yn ystod cyfnod y Cynllun, trwy ddyrannu safle a darparu polisi meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau am safleoedd newydd.

6.3.2 Rhestrir y dangosydd canlynol ar gyfer PS9:

- Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw; nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol; nifer y gwrsyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol; a'r angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr fel y nodwyd mewn Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)

6.3.3 Mae arfarniad o'r dangosydd wedi dod i'r casgliad bod PS9 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 45: Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw; nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol; nifer y gwrsyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol; a'r angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodwyd mewn GTAA.

Tabl 6.3.1 PS9 – Sipsiwn a Theithwyr, Dangosydd 45

Polisi Strategol SP 9 Dangosydd 45			
Dangosydd	Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatwyd yn flynyddol. Nifer y gwrsyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol. Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodwyd mewn GTAA		
Amcan	AM9		
Polisiâu Allweddol	PS9	Polisiâu Cysylltiedig	PS2; ST1 ; ST2
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y lleiniau ychwanegol a ddarparwyd yng Nghae Garw. Nifer y cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ganiatawyd yn flynyddol.	Bydd 4 llain yn cael eu darparu yng Nghae Garw erbyn 2017. Bydd 7 llain yn cael eu darparu yng Nghae Garw erbyn 2022.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
			Methu cyflwyno'r 4 llain yng Nghae Garw erbyn 2017. Methu cyflwyno'r 7 llain yng Nghae Garw erbyn 2022.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

<p>Nifer y gwersyllfeydd Sipsiwn a Theithwyr heb eu hawdurdodi yr adroddwyd amdanynt yn flynyddol.</p> <p>Yr angen am ddarpariaeth ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr, fel y nodwyd mewn GTAA.</p>	<p>Bydd 9 llain yn cael eu darparu (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.</p>	<p>AMB 2019</p>		<p>Methu cyflwyno 9 llain (ar safle priodol neu yng Nghae Garw) erbyn 2026.</p>
		<p>AMB 2020</p>		
		<p>AMB 2021</p>		
<p>Gweithredu</p>				
<p>Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.</p>				
<p>Dadansoddiad:</p>				
<ul style="list-style-type: none"> Nododd GTAA 2012 fod angen 4 llain erbyn 2017, 7 llain erbyn 2022 a 9 llain erbyn 2026. Ar y cychwyn, roedd y Cyngor yn bwriadu datblygu safle Cae Garw, Margam fesul 3 cham, i gyrraedd y targedau tymor byr, canolig a hir a nodwyd yn GTAA 2012. Fodd bynnag, oherwydd bod angen cymaint o waith paratoi ar y safle, ac i sicrhau cost-effeithiolrwydd a chyflawni effeithlon, penderfynodd y Cyngor roi 11 llain ar waith yn y tymor byr, er mwyn diwallu'r angen gofynnol hyd at 2022. Rhoddyd caniatâd cynllunio ar gyfer yr 11 llain yn gynnar yn 2015, a phryd hynny cyflwynodd y Cyngor gais llwyddiannus am gyllid o Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr LIC ar gyfer yr estyniad. Wedi hynny, cwblhawyd yr estyniad (11 o leiniau) yng ngwanwyn 2016, yn unol â thelerau'r grant. O ganlyniad, mae'r targedau polisi, sef cyflawni 4 llain erbyn 2017 a 7 llain erbyn 2022 fel ei gilydd wedi cael eu cyflawni. Daeth yr asesiad diweddaraf, GTAA 2016, i'r casgliad bod yr 11 o leiniau a ddarparwyd yng Nghae Garw yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned hyd at 2021. Yn ystod y cyfnod monitro ni wnaed penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio i ddarparu lleiniau ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, cafwyd un cais i lunio ystafell ddydd ac adeilad amwynder ar safle preifat oedd eisoes yn bodoli. Cynhaliwyd GTAA 2022 yn ystod y cyfnod monitro, a chyflwynwyd adroddiad drafft i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo ym mis Chwefror 2022. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn disgwyl am ymateb gan Lywodraeth Cymru. 				

6.4 PS10 'Mannau Agored'

6.4.1 Mae PS10 'Mannau Agored' yn ceisio sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn darparu ar gyfer anghenion manau agored preswylwyr a chyflogaion y dyfodol, trwy gynnig darpariaeth ar y safle neu oddi arno, neu wneud cyfraniadau a.106, fel bod modd cynnig darpariaeth neu welliant yn lleol. Ar ben hynny, caiff manau agored sydd eisoes yn bodoli eu diogelu rhag datblygu, oni bai bod modd bodloni meini prawf penodol.

6.4.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS10:

- Dangosydd 46: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu tai lle na roddwyd sylw i anghenion manau agored y preswylwyr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- Dangosydd 47: Nifer y manau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygu, yn groes i'r fframwaith polisi.
- Dangosydd 48: Paratoi CCA yn ymwneud â Mannau Agored a Thir Glas. Cafodd y CCA Mannau Agored a Thir Glas ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. O ganlyniad, nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

6.4.3 Ar sail arfarniad o ddangosydd 46 yn 2019 daethpwyd i'r casgliad nad yw PS10 yn cyflawni ei holl amcanion, ac y dylai gael ei adolygu fel rhan o adolygiad y CDLI. Mae'r arfarniad o ddangosydd 47 yn dangos bod yr agwedd hon ar y polisi yn dal i gyrraedd y targed (gweler isod).

Dangosydd 47: Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygu, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 6.4.1 PS10 – Mannau Agored, Dangosydd 47

PS10 Dangosydd 47				
Dangosydd	Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygu, yn groes i'r fframwaith polisi			
Amcan	AM 10			
Polisiâu allweddol	PS10	Polisiâu cysylltiedig	SP2, OS2	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Sbardun
Nifer y mannau agored presennol a gollwyd yn sgîl datblygu, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli mannau agored yn groes i'r fframwaith polisi	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais sy'n arwain at golli man agored yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Yn ystod y cyfnod monitro ni chymeradwywyd ceisiadau sydd wedi arwain at golli mannau agored lle mae diffyg darpariaeth o ran y categori hwnnw o fannau agored yn y ward. 				

6 . Adeiladu Cymunedau Iach a Chynaliadwy

7 Hybu Economi Gynaliadwy

7.0.1 Mae'r Bennod hon yn adrodd am y polisiau strategol canlynol yn thema 'Hybu Economi Gynaliadwy' y CDLI:

- PS11 'Twf Cyflogaeth';
- PS12 'Manwerthu'; a
- PS13 'Twristiaeth'

7.1 PS11 'Twf Cyflogaeth'

7.1.1 Nod PS11 'Twf Cyflogaeth' yw hybu economi gynaliadwy trwy nifer o fesurau, gan gynnwys dyrannu safleoedd ar gyfer datblygu economaidd, diogelu safleoedd cyflogaeth presennol, a darparu dull mwy hyblyg o ymdrin â datblygu yn ardaloedd y cymoedd.

7.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS11:

- **Dangosydd 49:** Lefel cyflogaeth yn y gweithle yn CNPT, y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, lefel a chyfradd cyflogaeth yn CNPT a lefel a chyfradd cyflogaeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 50:** Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ond fel dangosydd craidd, mae'n cael ei ddadansoddi ymhellach isod yn ogystal.
- **Dangosydd 51:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd at ddibenion cyflogaeth ym Mae Baglan. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 52:** Y newid net yn swm y tir cyflogaeth a'r arwynebedd llawr. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 53:** Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT, cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.
- **Dangosydd 54:** Cyfradd diweithdra CNPT, cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig.
- **Dangosydd 55:** Paratoi CCA ynghylch Fframwaith Datblygu Bae Baglan. Cafodd CCA Fframwaith Datblygu Bae Baglan ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 56:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

7.1.3 Mae'r arfarniad o'r dangosyddion yn flaenorol wedi dod i'r casgliad nad yw'r polisi strategol yn cyflawni ei amcanion, ac felly bydd y polisi yn cael ei adolygu fel rhan o Adolygiad y CDLI.

Dangosydd 50: Tir cyflogaeth a ganiatawyd ar safleoedd a ddyrannwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth

Tabl 7.1.1 PS11 – Tir Cyflogaeth, Dangosydd 50

PS11 Dangosydd 50			
Dangosydd	<u>Dangosydd Craidd: Darparu ar gyfer datblygiadau cyflogaeth newydd a rhai sy'n ehangu trwy ddyrannu tir at ddibenion cyflogaeth.</u>		
Amcan			
Polisiau allweddol	PS2, EC1	Polisiau cysylltiedig	PS11
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Sbardun
<u>Prif Darged:</u> Datblygu isafswm o 32 hectar o dir ar y safleoedd canlynol, a ddyrannwyd at ddibenion cyflogaeth, hyd at 2026: Bae Baglan: 15ha Cyffordd 38: 6ha AAS Coed Darcy: 4ha AAS Glannau'r Harbwr: 7ha	<u>Targedau Interim:</u> 2011/14: 1.7ha (gwirioneddol) 2014/17: 7.6ha 2017/20: 7.6ha 2020/23: 7.6ha 2023/26: 7.6ha <u>Targedau Blynyddol:</u> Datblygu 2.5ha o dir y flwyddyn ar gyfartaledd at ddibenion cyflogaeth yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun, gyda tharged cronol o 5ha i'w ddatblygu yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd.	<u>Mabwysiadu</u> 2016 AMB 2017 AMB 2018 AMB 2019 AMB 2020 AMB 2021 AMB 2022	Mae swm y tir sy'n cael ei ddatblygu at ddibenion cyflogaeth yn gostwng o dan y targed cronol o 5ha sydd i'w ddatblygu yn ystod unrhyw gyfnod o 2 flynedd, 2 flynedd yn olynol.
Gweithredu			
Er bod sbardun y Polisi wedi cael ei gyrraedd, gan fod hwn yn ddangosydd craidd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro.			
Dadansoddiad:			

- Mae'r Fframwaith Monitro yn gosod targed o 2.5 hectar (ha) o ddatblygiad cyflogaeth fesul blwyddyn ar y safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, gyda thargedau interim o ddatblygu 7.6ha dros bob cyfnod o dair blynedd, fel y nodwyd yn y tabl uchod.
- Yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ni chafwyd ceisiadau am ddarpariaeth cyflogaeth newydd o fewn yr ardaloedd cyflogaeth a ddyrannwyd.

Dangosydd 53: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT a chyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig

Tabl 7.1.2 PS11 – Twf Cyflogaeth, Dangosydd 53


PS11 Dangosydd 53				
Dangosydd	<u>Dangosydd Lleol: Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT.</u> <u>Dangosydd Cyd-destunol: Cyfradd gweithgarwch economaidd Cymru a'r Deyrnas Unedig.</u>			
Amcan	AM2; AM11; AM12			
Polisiau allweddol	PS2	Polisiau cysylltiedig	PS11	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Sbardun
<u>Dangosydd Lleol:</u> Cyfradd gweithgarwch economaidd CNPT. <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Cyfradd gweithgarwch economaidd i Gymru a'r Deyrnas Unedig.	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd gweithgarwch economaidd i 76% erbyn 2026	Mabwysiadu	2016	Mae cyfradd gweithgarwch economaidd yn dirywio 2 flynedd yn olynol.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
		AMB 2022		
Gweithredu				
Gan fod y duedd hon yn cyfateb i ddirywiad cyffredinol mewn gweithgarwch economaidd ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> • Fel y gwelir yn y graff isod, mae cyfradd gweithgarwch economaidd yn CNPT wedi gostwng yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond mae'r cyfnod hwn yn cyfateb i ddirywiad cyffredinol mewn gweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. 				

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Tabl 7.1.3 PS11 - Dangosydd 53: Gweithgarwch Economaidd

Blwyddyn yn Diweddu ar	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011	69.7%	72.7%	76.0%
31 Mawrth 2012	67.9%	73.0%	76.2%
31 Mawrth 2013	70.4%	73.9%	76.8%
31 Mawrth 2014	74.3%	75.3%	77.1%
31 Mawrth 2015	71.1%	74.4%	77.3%
31 Mawrth 2016	71.8%	75.3%	77.7%
31 Mawrth 2017	74.9%	74.8%	78.8%
31 Mawrth 2018	72.5%	76.5%	78.3%
31 Mawrth 2019	74.0%	76.7%	78.5%
31 Mawrth 2020	76.9%	76.6%	79.0%
31 Mawrth 2021	75.1%	76.3%	78.4%
31 Mawrth 2022	74.9%	76.5%	78.5%

Economic Activity Rates



Tabl 7.1.4 PS11 – Twf Cyflogaeth, Dangosydd 54

Polisi Strategol PS11 Dangosydd 54				
Dangosydd	<u>Dangosydd Lleol:</u> Cyfradd diweithdra CNPT <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig			
Amcan	AM2; AM11; AM12			
Polisiâu allweddol	PS11	Polisiâu cysylltiedig	PS2	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Sbardun	
<u>Dangosydd Lleol:</u> Cyfradd diweithdra CNPT <u>Dangosydd Cyd-destunol:</u> Cyfradd diweithdra Cymru a'r Deyrnas Unedig	Cyflawni gostyngiad yng nghyfradd diweithdra i 6.9% erbyn 2026	Mabwysiadu	2016	Mae cyfradd diweithdra yn codi 2 flynedd yn olynol.
AMB 2017				
AMB 2018				
AMB 2019				
AMB 2020				
AMB 2021				
AMB 2021				
Gweithredu				
Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> ● Fel y gwelir o'r tabl isod, er bod cyfradd diweithdra wedi codi yn 2021, mae wedi gostwng wedyn yn 2022. 				

Tabl 7.1.5 PS11 - Dangosydd 54: Cyfradd diweithdra

Blwyddyn yn Diweddu ar	Castell-nedd Port Talbot	Cymru	Y Deyrnas Unedig
31 Mawrth 2011	10.8%	8.4%	8.1%
31 Mawrth 2012	7.4%	8.3%	7.8%
31 Mawrth 2013	9.3%	7.4%	7.2%
31 Mawrth 2014	5.6%	6.7%	5.9%
31 Mawrth 2015	6.9%	5.4%	5.1%
31 Mawrth 2016	5.5%	4.4%	4.7%
31 Mawrth 2017	6.6%	4.9%	4.3%
31 Mawrth 2018	3.0%	4.5%	4.1%
31 Mawrth 2019	3.0%	4.5%	4.1%

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

31 Mawrth 2020	3.0%	4.5%	4.1%
31 Mawrth 2021	4.2%	3.7%	3.9%
31 Mawrth 2022	3.5%	3.8%	4.1%

Dangosydd 56: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.1.7 PS11 – Twf Cyflogaeth, Dangosydd 56

PS11 Dangosydd 56				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.			
Amcan	6,11,12			
Polisiau allweddol	PS2	Polisiau cysylltiedig	EC2, EC3, EC4, EC5	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Sbardun	
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddiogelwyd, yn groes i'r fframwaith polisi.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMRB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
		AMB 2022		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Mae Polisi EC3 'Defnyddiau Ardal Gyflogaeth' yn cyfyngu defnyddiau mewn ardaloedd cyflogaeth presennol a rhai a ddyrannwyd i Ddosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8, cyfleusterau ategol neu wasanaethau a fyddai'n cefnogi defnyddiau cyflogaeth a gwasanaethau masnachol nad ydynt yn gysylltiedig â Dosbarth B. Byddai angen i wasanaethau masnachol gyd-fynd â swyddogaeth economaidd ehangach yr ardal gyflogaeth, ac ni ddylent fod yn ddefnyddiau y byddai'n fwyaf addas eu lleoli yng nghanol trefi. O fewn y cyfnod monitro hwn, cyflwynwyd un cais mewn ardal gyflogaeth a ddiogelwyd y gellid barnu o bosib ei fod yn groes i'r fframwaith polisi. Y cais hwnnw yw caniatâd cynllunio P2020/1103, a roddwyd i sicrhau darpariaeth glinigol ychwanegol ac addasiadau i'r maes parcio cysylltiedig â'r Cyfleuster Gofal Sylfaenol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal gyflogaeth ddynodedig. Gan mai cais am lety ychwanegol yw hwn, ni fernir bod y cais yn groes i'r fframwaith polisi. 				

7.2 PS12 'Manwerthu'

7.2.1 Mae PS12 'Manwerthu' yn amlinellu strategaeth fanwerthu'r Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y cynllun. Diben hynny yw cefnogi canolfannau manwerthu presennol y Fwrdeistref Sirol trwy ddiogelu ac annog darpariaeth fanwerthu mewn lleoliadau priodol, ynghyd â chaniatáu defnyddiau cydweddus a fydd yn gwella canolfannau manwerthu ochr yn ochr â gwrthwynebu cynigion ar gyfer manwerthu y tu allan i'r canol. .

7.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS12:

- **Dangosydd 57:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd
- **Dangosydd 58:** Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.

7.2.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS12 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad. Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei fonitro (gweler isod).

Dangosydd 57: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.

Tabl 7.2.1 PS12 – Manwerthu, Dangosydd 57

Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 57			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.		
Amcan	AM13		
Polisiâu Allweddol	PS12	Related Policies	PS2; M2; M3
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau manwerthu, yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd.	Dim caniatáu ceisiadau ar gyfer datblygiadau manwerthu yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
		AMB 2021	
Gweithredu			
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.			
Dadansoddiad:			

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

- Cymeradwywyd chwe chais am ddarpariaeth fanwerthu ychwanegol yn y cyfnod monitro, tri ohonynt yn groes i'r hierarchaeth fanwerthu a ddiffiniwyd, gan eu bod wedi'u lleoli tu allan i unrhyw ganolfan fanwerthu.
- Barnwyd bod yr holl gynigion yn dderbyniol ac yn unol â'r fframwaith polisi, ac felly nid oedd ceisiadau sbarduno yng nghyswllt y dangosydd hwn.

Dangosydd 58: Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.

Tabl 7.2.2 PS12 – Manwerthu, Dangosydd 58

Polisi Strategol SP 12 Dangosydd 58				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.			
Amcan	AM13			
Polisiâu Allweddol	PS12	Polisiâu Cysylltiedig	PS2; M3	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.	Cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd.	Mabwysiadu	2016	Dim cynnydd yn nifer y cynigion manwerthu ar raddfa fach a ganiatawyd 2 flynedd yn olynol.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad				
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd dau gais am fanwerthu ar raddfa fach⁽¹³⁾ yn y cyfnod monitro, y naill a'r llall yn newidiadau defnydd. • Dyma'r un nifer ag a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, oedd yn gynydd o gymharu â'r nifer a gymeradwywyd yn 2019-2020. O ganlyniad, nid yw hynny'n creu sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. 				

7.3 PS13 'Twristiaeth'

7.3.1 Nod PS13 'Twristiaeth' yw annog datblygiad twristiaeth gynaliadwy: annog datblygiadau twristiaeth cynaliadwy, o safon uchel; darparu dull hyblyg o ymdrin â datblygu cyfleusterau twristiaeth a throsi i hynny; cefnogi cynigion twristiaeth trwy ddyrannu tir ar gyfer datblygu twristiaeth; a gwrthwynebu, lle bo hynny'n briodol, gynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth.

7.3.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS13:

13 [\(trothwyon 100msg o arwynebedd llawr gros yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir a 200msg yn Ardal Strategaeth y Cymoedd\)](#)

- **Dangosydd 59:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 60:** Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 61:** Datblygu ystod o lwybrau cerdded a beicio gwell. Cwblhawyd y llwybrau cerdded a beicio yng nghyfnod monitro 2017 – dim angen monitro/gweithredu pellach.

7.3.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS13 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad. Bydd y polisi hwn yn parhau i gael ei fonitro (gweler isod).

Dangosydd 59: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 7.3.1 PS13 – Twristiaeth, Dangosydd 59

Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 59				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.			
Amcan	AM14			
Polisiau Allweddol	PS13	Polisiau Cysylltiedig	T01	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd yn groes i'r fframwaith polisi.	Dim cynigion twristiaeth i gael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais ar gyfer cynigion twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach yn ofynnol, monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> • O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd chwe chais cynllunio yn ymwneud â darparu cyfleusterau twristiaeth newydd. Roedd pump o'r ceisiadau yn cynnwys darparu llety ychwanegol i dwristiaid, gan gynnwys caniatâd amlinellol a roddwyd ar gyfer cyrchfan antur yn y Cymer (cyf. 2018/0493), oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 600 o gabanau/randai a gwesty, gydag ystod o gyfleusterau eraill. • Barnwyd bod yr holl geisiadau'n unol â'r fframwaith polisi ac y byddant yn cefnogi'r sector twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. O ganlyniad nid oes ceisiadau sy'n sbarduno'r dangosydd hwn. 				

Dangosydd 60: Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi.

7 . Hybu Economi Gynaliadwy

Tabl 7.3.2 PS13 – Twristiaeth, Dangosydd 60

Polisi Strategol SP 13 Dangosydd 60				
Dangosydd	Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi			
Amcan	AM14			
Polisiâu Allweddol	PS13	Polisiâu Cysylltiedig	T02	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y cyfleusterau twristiaeth a gollwyd yn groes i'r fframwaith polisi	Dim colli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais sy'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach, Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> O fewn y cyfnod monitro hwn cymeradwywyd un cais oedd yn cynnig newid defnydd canolfan ymwelwyr bresennol i gaffi/fwyty gyda gwybodaeth ategol i ymwelwyr a darpariaeth fanwerthu ym Mharc Gwledig Afan Argoed (P2022/0040). Mae'r cyfleuster newydd arfaethedig hwn i ymwelwyr yn disodli'r defnydd presennol, a barnwyd ei fod yn unol â'r fframwaith polisi. 				

8 Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

8.0.1 Mae'r Bennod hon yn adrodd am y polisiau strategol canlynol yn thema 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd' y CDLI:

- PS14 'Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu';
- PS15 'Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth';
- PS16 'Diogelu'r Amgylchedd';
- PS17 'Mwynau';
- PS18 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'; a
- PS19 'Rheoli Gwastraff'

8.1 PS14 'Cefn Gwlad a'r Arfordir sydd heb ei Ddatblygu'

8.1.1 Mae gan y Fwrdeistref Sirol amrywiaeth o dirluniau a morluniau trawiadol a chyferbyniol. Mae PS14 yn ceisio sicrhau bod cefn gwlad, tirluniau pwysig ac ardaloedd arfordir sydd heb eu datblygu ar draws yr ardal yn cael eu diogelu rhag datblygu amhriodol ac yn cael eu cadw, ochr yn ochr â chefnogi menter wledig, gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau hamdden.

8.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS14:

- **Dangosydd 62:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2019, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 63:** Paratoi CCA ynghylch y tirlun a'r morlun. Cafodd CCA y Tirlun a'r Morlun ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

8.1.3 Daeth arfarniad o ddangosydd 62 yn 2019 i'r casgliad nad oedd PS14 yn cyflawni ei amcanion, ac y byddai angen ei adolygu fel rhan o Adolygiad CDLI.

8.2 PS15 'Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth'

8.2.1 Mae PS15 'Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth' yn ceisio diogelu, cadw a gwella safleoedd a nodweddion bioamrywiaeth a geoamrywiaeth pwysig yn yr ardal trwy'r broses gynllunio.

8.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS15:

- **Dangosydd 64:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.
- **Dangosydd 65:** Paratoi'r CCA ynghylch Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth. Cafodd y CCA Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Mai 2018. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

8.2.3 Mae arfarniad o ddangosydd 64 wedi dod i'r casgliad bod PS15 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 64: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 8.2.1 PS15 – Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth, Dangosydd 64

Polisi Strategol SP 15 Dangosydd 64				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.			
Amcan	AM15			
Polisiâu Allweddol	PS15	Polisiâu Cysylltiedig	AMG6	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Ni chafodd unrhyw geisiadau cynllunio eu derbyn na'u cymeradwyo o fewn unrhyw safleoedd bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol yn ystod y cyfnod monitro. 				

8.3 PS16 'Diogelu'r Amgylchedd'

8.3.1 Mae PS16 'Diogelu'r Amgylchedd' yn ceisio amddiffyn ansawdd aer, dŵr a'r pridd, a'r amgylchedd yn gyffredinol, a sicrhau nad yw datblygiadau'n cynyddu nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.

8.3.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS16:

- Dangosydd 66:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn yr Ardal Monitro Ansawdd Aer (AMAA), yn groes i'r fframwaith polisi.

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

- **Dangosydd 67:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd â nhw.
- **Dangosydd 68:** Paratoi CCA ynghylch llygredd. Cafodd y CCA Llygredd ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 69:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd tawel dynodedig.

8.3.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS16 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn yr AMAA, yn groes i'r fframwaith polisi.

Tabl 8.3.1 PS16 – Diogelu'r Amgylchedd, Dangosydd 66

PS16 Dangosydd 66													
Dangosydd	Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn yr AMAA, yn groes i'r fframwaith polisi.												
Amcan	AM16; AM17												
Polisiau allweddol	PS16	Polisiau Cysylltiedig	PS2; AMG8										
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno										
Dangosydd 66: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn yr AMAA, yn groes i'r fframwaith polisi.	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd nac arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.	<table border="1"> <tr> <td>Mabwysiadu</td> <td>2016</td> </tr> <tr> <td>AMB 2017</td> <td></td> </tr> <tr> <td>AMB 2018</td> <td></td> </tr> <tr> <td>AMB 2019</td> <td></td> </tr> <tr> <td>AMB 2020</td> <td></td> </tr> </table>	Mabwysiadu	2016	AMB 2017		AMB 2018		AMB 2019		AMB 2020		Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
Mabwysiadu	2016												
AMB 2017													
AMB 2018													
AMB 2019													
AMB 2020													
Gweithredu													
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.													
Dadansoddiad:													
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd chwe chais perthnasol yn yr AMAA yn ystod y cyfnod monitro, pump ar gyfer newidiadau defnydd ac un ar gyfer datblygiad preswyl. • Barnwyd bod yr holl gynigion yn unol â'r fframwaith polisi. 													

Dangosydd 67: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd â nhw.

Tabl 8.3.2 PS16 – Diogelu'r Amgylchedd, Dangosydd 67

PS16 Dangosydd 67

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd â nhw.		
Amcan	AM16; AM17		
Polisiâu allweddol	PS16	Polisiâu Cysylltiedig	PS2; AMG9
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd heb Gynllun Rheoli Adeiladwaith i gyd-fynd â nhw.	Ni ddylai achosion o dorri lefelau ansawdd aer ddigwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, yn groes i'r Cynllun Rheoli Adeiladwaith a gyflwynwyd ac y cytunwyd arno.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
Gweithredu			
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.			
Dadansoddiad:			
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd saith cais o fewn yr AMAA neu o fewn 500m i ffin yr AMAA yn ystod y cyfnod monitro. • Roedd dau o'r ceisiadau hyn ar gyfer datblygiad gweithrediadol perthnasol. • Ni fu cyfnodau adeiladu'r cynigion hyn yn gyfrifol am unrhyw achosion o dorri lefelau ansawdd aer. 			

Dangosydd 69: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn Ardaloedd Tawel dynodedig.

Tabl 8.3.3 PS16 – Diogelu'r Amgylchedd, Dangosydd 69

PS16 Dangosydd 69			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn Ardaloedd Tawel dynodedig.		
Amcan	OB2;		
Polisiâu allweddol	PS16; EN10	Polisiâu Cysylltiedig	
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn Ardaloedd Tawel dynodedig.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
		AMB 2021	
Gweithredu			

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.
Dadansoddiad:
<ul style="list-style-type: none"> Ni chymeradwywyd ceisiadau o fewn ardaloedd tawel dynodedig yn ystod y cyfnod monitro.

8.4 PS17 'Mwynau'

8.4.1 Mae PS17 'Mwynau' yn ceisio rheoleiddio'r ecsbloetio ar adnoddau mwynau er mwyn gwneud cyfraniad cymesur at fodloni'r galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol am fwynau, ochr yn ochr â chyflawni cydbwysedd derbyniol a chynaliadwy o ran diogelu'r amgylchedd a chymunedau lleol.

8.4.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS17:

- Dangosydd 70:** Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).
- Dangosydd 71:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.
- Dangosydd 72:** Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad oeddent yn cyd-fynd â Pholisi M2
- Dangosydd 73:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn Parthau Clustogi Mwynau

8.4.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS17 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi yn parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 70: Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn yr MTAN.

Tabl 8.4.1 PS17 – Mwynau, Dangosydd 70

PS17 Dangosydd 70				
Dangosydd	Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn yr MTAN.			
Amcan	AM18			
Polisiau allweddol	PS17	Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel	Mae cronfa dir 10 mlynedd o greigiau mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y Cynllun.	Mabwysiadu	2016	Ni chedwir cronfa dir 10 mlynedd ar hyd cyfnod y Cynllun.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn yr MTAN.	AMB 2020	
	AMB 2021	
Gweithredu		
Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau.		
Dadansoddiad:		
<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cwrpas y gronfa dir creigiau mâl yn Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) 2019 (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021). • Cyfrifwyd ffigurau'r gronfa dir yn ôl y dull a gyflwynwyd yn MTAN1 (Agregau), gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant y 3 blynedd diwethaf (h.y. ni chaniatwyd ar gyfer y duedd o ran y galw). • Mae'r adroddiad yn nodi bod gan CNPT ffigur cronfa dir o 47 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3 blynedd (2017-2019). Bernir bod y ffigur o 43 blynedd ar sail cyfartaledd gwerthiant 10 mlynedd (2010 - 2019) yn fwy darbodus na'r ffigur 3 blynedd. • Mae 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf (DTRh) (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020) bellach yn mynegi'r gronfa dir ar ffurf y ffigur cyfrannedd blynyddol a argymhellwyd ar gyfer CNPT, sy'n rhoi cronfa dir o 54 mlynedd. • Bernir felly fod gofynion y dangosydd hwn wedi cael eu bodloni ar gyfer y cyfnod monitro hwn. 		

Dangosydd 71: Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnoddau mwynau.

Tabl 8.4.2 PS17 – Mwynau, Dangosydd 71

PS17 Dangosydd 71				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.			
Amcan	AM18			
Polisiâu allweddol	PS17	Polisiâu Cysylltiedig	M1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatwyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> • Caniatwyd cyfanswm o 21 o geisiadau o fewn ardaloedd diogelu mwynau (Polisi M1) yn ystod y cyfnod monitro. • Barnwyd bod pob cais a gymeradwywyd yn unol â'r fframwaith polisi, ac felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. 				

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Dangosydd 72: Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn cyd-fynd â Pholisi M2.

Tabl 8.4.4 PS17 – Mwynau, Dangosydd 72

PS17 Dangosydd 72			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn cyd-fynd â Pholisi M2.		
Amcan	AM18		
Polisiau allweddol	PS17	Polisiau Cysylltiedig	M2
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn cyd-fynd â Pholisi M2.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
		AMB 2018	
		AMB 2019	
		AMB 2020	
		AMB 2021	
Gweithredu			
Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau.			
Dadansoddiad:			
<ul style="list-style-type: none"> Mae Dangosydd 72 yn ymwneud â Pholisi M2 sy'n cyfeirio at gynigion ar gyfer gweithgareddau arwyneb sy'n gysylltiedig ag echdynnu glo. Ni chaniatwyd ceisiadau perthnasol yn ystod y cyfnod monitro, felly nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. 			

Dangosydd 73: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatwyd o fewn Parthau Clustogi Mwynau.

Tabl 8.4.5 PS17 - Mwynau, Dangosydd 73

PS17 Dangosydd 73			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatwyd o fewn Parthau Clustogi Mwynau.		
Amcan	AM18		
Polisiau allweddol	PS17	Polisiau Cysylltiedig	M3
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd o fewn Parthau Clustogi Mwynau.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r dangosydd yn ymwneud â nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn parthau clustogi mwynau (Polisi M3) a nodwyd o amgylch safleoedd mwynau arfaethedig a rhai sydd eisoes yn bodoli. Caniatawyd un cais (P2021/1212) ar gyfer cynnig mewn parth clustogi o fewn y cyfnod monitro, ond barnwyd ei fod yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. 				

8.5 PS18 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel'

8.5.1 Nod PS18 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel' yw sicrhau bod yr ardal yn gwneud cyfraniad cymesur i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ochr yn ochr â chydbwysio effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd a chymunedau.

8.5.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS18:

- Dangosydd 74:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar gyfer datblygu technoleg carbon isel ac ynni adnewyddadwy. Cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno yn 2021 ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- Dangosydd 75:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw
- Dangosydd 76:** Paratoi CCA ynghylch Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel. Cafodd y CCA Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

8.5.3 Mae arfarniad o ddangosydd 74 wedi dod i'r casgliad nad yw PS18 bellach yn cyflawni ei dargedau, a hefyd ei fod wedi cael ei ddiddymu gan bolisi cenedlaethol newydd (gweler isod). O ganlyniad, bydd angen adolygu'r polisi fel rhan o broses Adolygu'r CDLI. Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Dangosydd 75: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw.

Tabl 8.5.1 PS18 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, Dangosydd 75

PS18 Dangosydd 75				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw.			
Amcan	AM19			
Polisiâu allweddol	PS18;	Polisiâu Cysylltiedig		YA2
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Asesiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Cyrhaeddodd chwe chynnis y trothwy oedd yn golygu bod angen Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Cyflwynwyd asesiad ynni ar gyfer y datblygiad preswyl yn Lido Afan a'r datblygiad diwydiannol ym Mharc Mardon. Roedd 3 chaniatâd yn amodol ar gyflwyno asesiad ynni. Roedd y datblygiad arall, Canolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd, yn amodol ar baratoi Strategaeth Ynni. O ganlyniad, roedd yr holl geisiadau'n cydymffurfio â gofynion Polisi YA2, ac nid oes angen gweithredu pellach. 				

8.6 PS19 'Rheoli Gwastraff'

8.6.1 Nod Polisi Strategol 19 (PS19) 'Rheoli Gwastraff' yw mabwysiadu dull cynaliadwy o ymdrin â rheoli gwastraff a chyfrannu at ddarparu ar gyfer rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff.

8.6.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS19:

- Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynlluniau Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.
- Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.
- Dangosydd 79: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT.

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

8.6.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS19 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 77: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.

Tabl 8.6.1 PS19 – Rheoli Gwastraff, Dangosydd 77

PS19 Dangosydd 77				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.			
Amcan	AM20			
Polisiau allweddol	PS19	Polisiau Cysylltiedig	G3	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle i gyd-fynd â nhw.	Dylai pob cynnig datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan Bolisi G3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Gallai fod gofyn hyfforddi'r Swyddogion a/neu'r Aelodau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Yn ystod y cyfnod monitro cafwyd 8 o geisiadau oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gwneud Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (CRhGS) yn ofynnol. Roedd saith o'r ceisiadau hyn naill ai'n cynnwys CRhGS neu dan amod i gyflwyno un. Cymeradwydwyd un cais heb y gofyniad hwn (P2021/0226). O ganlyniad, caniatwyd un cais yn groes i'r fframwaith polisi. Gallai fod angen hyfforddi'r Swyddogion a/neu'r Aelodau yng nghyswllt y dangosydd hwn. 				

Dangosydd 78: Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth.

Tabl 8.6.2 PS19 – Rheoli Gwastraff, Dangosydd 78

PS19 Dangosydd 78	
Dangosydd	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth
Amcan	AM20

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

Polisiau allweddol	PS19	Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff	Mabwysiadu	2016	Gwrthod un cais ar safle cyflogaeth y barnwyd ei fod yn addas ar gyfer gwastraff.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Ni chafwyd/phenderfynwyd ar geisiadau cysylltiedig â gwastraff oedd yn ymwneud â thir cyflogaeth dynodedig a/neu wedi'i ddiogelu yn ystod y cyfnod monitro. O ganlyniad, nid oes ceisiadau sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn. 				

Dangosydd 79: Swm y tir a'r cyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT.

Tabl 8.6.3 PS19 – Rheoli Gwastraff, Dangosydd 79

PS19 Dangosydd 79				
Dangosydd	Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT			
Amcan	OB20			
Polisiau allweddol	PS19	Polisiau Cysylltiedig		
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT	To maintain sufficient land and facilities to cater for waste in NPT	Mabwysiadu	2016	Pennir y sbardun ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
Gweithredu				
<ul style="list-style-type: none"> Dim gweithredu pellach. Monitro i barhau. 				
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Sbardun y dangosydd hwn yw capasiti tirlenwi o 7 mlynedd o leiaf i'r rhanbarth. 				

8 . Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd

- Mae Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (AMCG) 2021/22 rhanbarth de-orllewin Cymru yn nodi mai'r capasiti tirlenwi a ragwelir ar gyfer y rhanbarth ar hyn o bryd yw 7.5 mlynedd. Mae hynny, felly, yn uwch na'r terfyn sbarduno o 7 mlynedd, ac nid yw'n sbarduno'r dangosydd hwn
- O ran cyfleusterau trin gwastraff mewn adeiladau, mae'r defnydd o dir cyflogaeth yn cael ei fonitro'n benodol gan Ddangosyddion 50, 51, 52 a 56 yn eu tro. Ar sail y monitro hyd yma, wedi'i gyfuno â'r rhwydwaith presennol o gyfleusterau sydd ar waith, bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio â deilliannau gwastraff yn CNPT.

9 Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

9.0.1 Mae'r Bennod hon yn adrodd am bolisiâu strategol canlynol thema 'Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy' yn y CDLI:

- PS20 'Rhwydwaith Trafnidiaeth'

9.1 PS20 'Rhwydwaith Trafnidiaeth'

9.1.1 Nod PS20 'Rhwydwaith Trafnidiaeth' yw cefnogi a datblygu'r rhwydwaith trafndiaeth er mwyn hwyluso symudiad pobl a nwyddau yn ddiogel ac yn effeithiol o fewn y Fwrdeistref Sirol, lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat, a gwella cysylltedd ag ardaloedd cymdogol.

9.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS20:

- **Dangosydd 80:** Cyflwyno 1. Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan; 2. Ffordd Fynediad Ddeheuol Coed Darcy; Ffordd Amazon (Cyfnod 2); 3. Gwelliannau i Gyffordd 43 (yr M4); Ffordd yr Harbwr (FfDdY). Er bod cynlluniau 1 a 3 wedi cael eu cyflwyno o fewn y terfynau amser a roddwyd, nid yw cynllun 2 wedi cael ei gyflwyno erbyn 2017, ac felly cafodd y dangosydd hwn ei sbarduno, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 81:** Cyflwyno'r Hwb Trafnidiaeth Integredig, Port Talbot. Cwblhawyd yr Hwb Trafnidiaeth Integredig yng nghyfnod monitro 2018, nid oes angen gweithredu na monitro pellach.
- **Dangosydd 82:** Cwblhau Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Aman a Thrywydd Cwm Afan (Port Talbot i Gwm Afan). Cwblhawyd prosiect Dyffryn Aman yn rhannol yn unig, ac felly sbardunwyd y dangosydd hwn, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 83:** Cyflwyno cyfleuster Parcio a Rhannu yng Nghyffordd 38 (yr M4) Margam. Ni chyflwynwyd y cynllun hwn o fewn y terfyn amser a roddwyd, ac o ganlyniad, cafodd y dangosydd ei sbarduno, ac nid yw'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn yr AMB hwn.
- **Dangosydd 84:** Paratoi CCA ynghylch Safonau Parcio. Cafodd y CCA Safonau Parcio ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Hydref 2016. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

9.1.3 Er bod nifer o ddatblygiadau, gan gynnwys Ffordd Gyswllt Parc Ynni Baglan, Ffordd Amazon (Cyfnod 2), yr Hwb Trafnidiaeth Integredig, Trywydd Cwm Afan a rhan o Lwybr Beicio Dyffryn Aman wedi cael eu cwblhau, daeth arfarniad o'r dangosyddion i'r casgliad yn flaenorol nad yw PS20 yn cyflawni ei amcanion. O ganlyniad, bydd y polisi'n cael ei adolygu fel rhan o Adolygiad y CDLI.

9 . Cyflawni Hygyrchedd Cynaliadwy

10 Parchu Unigrywiaeth

10.0.1 Mae'r Bennod hon yn adrodd am y polisiâu strategol canlynol o dan thema 'Parchu Unigrywiaeth' y CDLI:

- PS21 'Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol'; a
- PS22 'Yr Iaith Gymraeg'

10.1 PS21 'Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol'

10.1.1 Mae amgylchedd adeiledig a ffurf drefol CNPT yn amrywiol ac yn unigryw, gyda nodweddion pwysig yn parhau o bob cyfnod, o'r cyfnod cynhanes ymlaen, gan gynnwys twyni claddu a bryngaerau Oes yr Haearn, seilwaith milwrol o gyfnod y Rhufeiniaid a thyddynod ac adeiladau eglwysig o'r canol oesoedd. Nod PS21 yw sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnal safon ddylunio uchel a bod amgylchedd hanesyddol pwysig yr ardal sy'n bodoli eisoes yn cael ei gadw a'i wella lle bynnag y bo modd.

10.1.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS21:

- **Dangosydd 85:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar adeiladau a nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.
- **Dangosydd 86:** Paratoi CCA ynghylch yr Amgylchedd Hanesyddol. Cafodd CCA yr Amgylchedd Hanesyddol ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.
- **Dangosydd 87:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd dynodedig eraill.

10.1.3 Mae arfarniad o'r dangosyddion wedi dod i'r casgliad bod PS21 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 85: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.

Tabl 10.1.2 PS21 – Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol, Dangosydd 85

PS21 Dangosydd 85			
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar nodweddion sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.		
Amcan	AM23; AM24		
Polisiâu allweddol	PS21	Polisiâu Cysylltiedig	AA2; AA3
Dangosydd	Targed	Canlyniad	Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd yn effeithio ar nodweddion	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016
		AMB 2017	
			Un cais datblygu sy'n groes i'r fframwaith polisi.

10 . Parchu Unigrywiaeth

sydd â phwysigrwydd lleol, pensaernïol neu ddiwylliannol.	AMB 2018	
	AMB 2019	
	AMB 2020	
	AMB 2021	
Gweithredu		
Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.		
Dadansoddiad:		
<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd dau gais oedd yn ymwneud ag Adeiladau â Phwysigrwydd Lleol (BLI) neu'n effeithio arnynt yn ystod y cyfnod monitro lle roedd Polisi AA2 yn berthnasol. • Roedd y naill a'r llall yn newid defnydd. • Yn y ddau achos, barnwyd bod y cynigion yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. 		

Dangosydd 87: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd dynodedig eraill.

Tabl 10.1.3 PS21 – Amgylchedd Adeiledig a Threftadaeth Hanesyddol, Dangosydd 87

PS21 Dangosydd 87				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd dynodedig eraill.			
Amcan	AM23; AM24			
Polisiau allweddol	PS21	Polisiau Cysylltiedig	AA1	
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn Ardaloedd Cadwraeth ac ar safleoedd dynodedig eraill.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais datblygu yn groes i'r fframwaith polisi.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				
Dim angen camau pellach. Monitro i barhau.				
Dadansoddiad:				

- Caniatawyd deg cynnig arwyddocaol/perthnasol mewn Ardaloedd Cadwraeth yn ystod y cyfnod monitro, pob un ohonynt yng nghanol tref Castell-nedd, un ar gyfer uned ciosg bwyd y tu ôl i dafarn, a'r lleill i gyd yn newidiadau defnydd neu'n drawsffurfiadau gydag addasiadau mewnol.
- Barnwyd bod yr holl gynigion yn briodol o ran cymeriad a golwg yr Ardal Gadwraeth, a'u bod yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi.

10.2 PS22 'Y Gymraeg'

10.2.1 Nod PS22 ' Y Gymraeg' yw diogelu'r iaith Gymraeg yn yr ardaloedd y nodir yn y polisi eu bod yn sensitif o ran y Gymraeg (Dyffryn Aman; Cwm Tawe, Pontardawe; a chymuned y Creunant yng Nghwm Dulais).

10.2.2 Rhestrir y dangosyddion canlynol ar gyfer PS22:

- **Dangosydd 88:** Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw.
- **Dangosydd 89:** Paratoi CCA ynghylch datblygu a'r Gymraeg. Cafodd CCA Datblygu a'r Gymraeg ei gwblhau a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Nid oes angen monitro na gweithredu pellach.

10.2.3 Mae'r arfarniad o Ddangosydd 88 wedi dod i'r casgliad bod PS22 yn cael ei weithredu'n unol â'r bwriad (gweler isod). Bydd y polisi'n parhau i gael ei fonitro.

Dangosydd 88: Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw.

Tabl 10.2.1 PS22 – Y Gymraeg, Dangosydd 88

PS22 Dangosydd 88				
Dangosydd	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw.			
Amcan	AM6; AM25			
Polisiâu allweddol	PS22	Polisiâu Cysylltiedig		C1
Dangosydd	Targed	Canlyniad		Pwynt Sbarduno
Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd oedd â Chynllun Gweithredu Iaith i gyd-fynd â nhw.	Dim caniatáu ceisiadau yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.	Mabwysiadu	2016	Caniatáu un cais yn yr Ardaloedd leithyddol Sensitif heb ymdrin â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.
		AMB 2017		
		AMB 2018		
		AMB 2019		
		AMB 2020		
		AMB 2021		
Gweithredu				

10 . Parchu Unigrywiaeth

Dim gweithredu pellach yn ofynnol. Monitro i barhau.

Dadansoddiad:

- Yn ystod y cyfnod monitro rhoddwyd un caniatâd preswyl amlinellol ar gyfer 10 annedd yng Ngwaun Cae Gurwen. Roedd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg i gyd-fynd â'r cais hwn.
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiad Masnachol yn Ystalyfera, oedd hefyd yn cynnwys Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg.
- Ar ben hynny, er bod y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd y tu allan i'r Ardal Sensitif o ran y Gymraeg o bersbectif CNPT, barnwyd bod y Gymraeg yn ystyriaeth bwysig, ac roedd y caniatâd yn cynnwys dau amod, sef paratoi Aseiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, a chyflwyno Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg.

RHAN 3 - Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11 Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

11.0.1 Bu'r CDLI yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) oedd yn cynnwys Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus ar hyd cyfnod paratoi'r cynllun. Roedd yr AC yn ymgorffori gofynion yr AAS, felly dylid cymryd bod pob cyfeiriad at yr AC yn y ddogfen hon yn cynnwys yr AAS. Roedd yr AC yn arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y cynllun a'i effeithiau tebygol o ran datblygu cynaliadwy.

11.0.2 Strwythurwyd yr AC o amgylch 8 pwnc ac roedd yn nodi cyfanswm o 22 amcan oddi mewn i'r pynciau hynny. Cafodd dangosyddion monitro a thargedau eu drafftio, eu datblygu a'u mireinio ar hyd esblygiad y CDLI a'r AC, ac mae Fframwaith Monitro'r CDLI a gyhoeddwyd⁽¹⁴⁾ yn ymgorffori dangosyddion monitro sy'n ymwneud ag amcanion dogfennau'r CDLI a'r AC, gan gynnwys nifer oedd yn deillio o'r dangosyddion drafft a nodwyd yn nogfennau'r AC.

11.0.3 Er mwyn monitro'r AC, gwnaed rhai newidiadau i'r dangosyddion i sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am amcanion yr AC. Mewn rhai achosion, mae dangosyddion ychwanegol wedi cael eu hymgorffori'n benodol i roi sylw i rai o amcanion yr AC.

11.0.4 Caiff pob un o amcanion yr AC ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, a chyflwynir y canfyddiadau yn yr adrannau isod. Defnyddiwyd y côd lliwiau canlynol i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd. Lle cafodd mynegeion eu hasesu'n gynharach yn yr adroddiad, ceir croesgyfeiriad yn unig.

	Effeithiau Cyffredinol Gadarnhaol
	Effeithiau Cymysg
	Effeithiau Cyffredinol Negyddo
0	Effaith Niwtral

11.1 Pwnc 1 yr AC: Newid yn yr Hinsawdd

Amcan 1A yr AC: Sicrhau bod pob datblygiad yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd (Addasiad)

Cyf y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
5	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C1	Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu ar gyfer datblygiadau bregus	Ni chaniatawyd ceisiadau ar gyfer datblygiadau bregus iawn mewn	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
		iawn mewn ardaloedd gorlifdir C1 os nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN15	ardaloedd gorlifdir C1 os nad oeddent yn bodloni holl ofynion TAN15. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
6	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd mewn ardaloedd gorlifdir C2	Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu ar gyfer datblygiadau bregus iawn mewn ardaloedd gorlifdir C2	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blyneddod blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS1.	
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blyneddod blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS14.	
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Er mwyn sicrhau bod pob datblygiad yn cymryd i ystyriaeth newidiadau tebygol yn y dyfodol yn sgîl y newid yn yr hinsawdd, mae PS1 a PS14 CDLI CNPT yn amlinellu nifer o ofynion ar gyfer datblygiadau newydd. Mae PS1 CDLI CNPT yn ceisio atal cyflwyno datblygiad newydd neu ddefnyddiau bregus pellach mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd oni bai bod modd cyfiawnhau hynny'n llawn, yn unol â'r polisi cenedlaethol, gan fod risg gynyddol o dywydd mwy eithafol a digwyddiadau llifogydd mwy o faint a mwy difrifol yn ganlyniadau tebygol a ragwelir i'r newid yn yr hinsawdd. O ran yr amcan AC hwn, o fewn y cyfnod monitro hwn, ni chaniatawyd datblygiadau bregus iawn mewn ardal gorlifdir C1 nad oeddent yn bodloni holl ofynion TAN15. Mae'r dangosydd hwn wedi methu cyrraedd ei darged mewn blyneddod blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae PS14 CDLI CNPT yn ceisio rheoli datblygu ar hyd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas, am resymau tirlun a chynaliadwyedd, gan gynnwys yr angen am sicrhau gwydnwch yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r dangosydd hwn wedi methu cyrraedd ei darged mewn blyneddod blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod y CDLI, at ei gilydd, yn cyfrannu'n rhannol yn unig at yr amcan AC hwn. 				

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Amcan 1B yr AC: Cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (Liniaru)

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
1	Dangosydd 1: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA).	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASCA.	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
2	Dangosydd 2: Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASC.	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
3	Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.	Dim tir glas wedi'i golli yn groes i'r fframwaith polisi.	O fewn y cyfnod monitro hwn ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau ar safleoedd tir glas oedd heb eu dyrannu yn groes i'r fframwaith polisi. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
4	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oddi mewn i leoliadau cyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd	Dim caniatáu ceisiadau ar safleoedd ar gyfer cludo nwyddau yn groes i'r fframwaith polisi.	Ni chaniatawyd ceisiadau ar safleoedd a ddiogelwyd ar gyfer cludo nwyddau yn y cyfnod monitro hwn. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
75	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd ag Aseiad Ynni Adnewyddadwy i gyd-fynd â nhw.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	O fewn y cyfnod monitro hwn cyrhaeddodd chwe chais y trothwy oedd yn galw am Aseiad Ynni Adnewyddadwy, a chafodd y rhain eu cyflwyno a'u cymeradwyo, neu eu gwneud yn amod gorfodol, ym mhob achos. O ganlyniad, nid oedd unrhyw geisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. Gweler PS18 am ragor o wybodaeth.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwydd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
SA1	Ôl troed carbon CNPT (tCO2 y pen)	Gostyngiad blynnyddol	50.0 tCO2 y pen (2019) ⁽¹⁵⁾	
SA2	Treulant Nwy CNPT	Gostyngiad blynnyddol	146.0 ktCO2 (Domestig 2019) ⁽¹⁶⁾	
SA3	Treulant Trydan CNPT	Gostyngiad blynnyddol	43.0 ktCO2 (Domestig 2019) ⁽¹⁷⁾	
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Mae CDLI CNPT yn ceisio cyflawni dwysedd cymharol uchel ar ddatblygiadau newydd; crynhoi datblygiadau newydd o fewn yr ardal drefol bresennol/ar safleoedd tir glas a ddyrannwyd lle mae mynediad da at wasanaethau a chyfleusterau er mwyn lleihau dibyniaeth trigolion yn y dyfodol ar gerbydau modur; diogelu cyfleusterau nwyddau ar gyfer symud nwyddau yn y dyfodol; a gofyn bod datblygiadau uwchben trothwy penodol yn cyflwyno Asesiadau Ynni Adnewyddadwy er mwyn cyflawni targedau'r llywodraeth ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r dadansoddiad isod yn awgrymu bod yr amcan AC hwn yn cael ei gyflawni i ryw raddau: Mae dangosyddion 1 a 2 wedi methu â chyrraedd eu targedau mewn blynnyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae dadansoddiad o ddangosyddion 3 a 4 yn awgrymu bod PS1 yn gweithio'n effeithiol i atal colli tir glas sydd heb ei ddyrannu ac i atal datblygu oddi mewn i gyfleusterau nwyddau a ddiogelwyd. Mae dadansoddiad o ddangosydd 75 yn awgrymu bod PS18 yn gweithio'n effeithiol er mwyn gofyn bod Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn cyd-fynd â chynigion perthnasol. Mae dadansoddiad o ddangosyddion AC1 ac AC2 yn dangos bod cynnydd yn yr ôl troed carbon a'r treulant nwy domestig blynnyddol (45.5 i 50.0 tCO2 y pen a 144.1 i 146.0 ktCO2 yn eu tro). Ond mae dadansoddiad o ddangosydd AC3 yn dangos bod treulant blynnyddol trydan domestig wedi gostwng rhwng 2018 a 2019 (48.3 i 43.0 ktCO2). Mae hyn yn parhau'r gostyngiad cyson a welwyd ers dechrau monitro'r Cynllun (77.0 i 43.0ktCO2 2015-2019). Nid oes diweddariadau mwy cyfredol i'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. 				

11.2 Pwnc 2 yr AC: Adnoddau Naturiol a Gwastraff

Amcan 2A yr AC: Lleiafu colli neu ddiraddio adnoddau naturiol, gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy yn unig

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
1	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 35 annedd fesul hectar yn Ardal Strategaeth Coridor yr Arfordir (ASCA).	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 35 annedd fesul hectar ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASCA.	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynnyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	

15 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019
 16 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019
 17 www.gov.uk/government/statistics/uk-local-authority-and-regional-carbon-dioxide-emissions-national-statistics-2005-to-2019

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
2	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o dan 30 annedd fesul hecтар yn Ardal Strategaeth y Cymoedd (ASC).	Dylid cyflawni dwysedd cyfartalog o 30 annedd fesul hecтар ar safleoedd a ddyrannwyd o fewn ASC.	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
3	Swm y tir glas a gollwyd oedd heb ei ddyrannu yn y CDLI.	Dim tir glas wedi'i gollu yn groes i'r fframwaith polisi.	O fewn y cyfnod monitro hwn ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau ar safleoedd tir glas oedd heb eu dyrannu yn groes i'r fframwaith polisi. Gweler PS1 am ragor o fanylion.	
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.	Dim caniatáu ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Cymeradwywyd 24 cais am ddatblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn y cyfnod monitro hwn. Barnwyd bod pob un ohonynt yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. Gweler PS3 am ragor o fanylion.	
12	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd lle mae seilwaith newydd neu well wedi cael ei sicrhau trwy gyfraniadau datblygwyr.	Bydd datblygiad newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau trwy ddarparu seilwaith newydd neu well lle bo hynny'n briodol.	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS4 am ragor o fanylion.	
62	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu, mewn ardaloedd tirlun arbennig ac ar letemau glas, yn groes i'r fframwaith polisi	Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi	Mae'r dangosydd hwn wedi methu â chyflawni ei darged yn y blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Gweler PS4 am ragor o fanylion.	
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.	Dim ceisiadau'n cael eu caniatáu yn groes i'r fframwaith polisi	Ni chafodd unrhyw geisiadau eu derbyn na'u caniatáu ar unrhyw safle a ddynodwyd yn genedlaethol nac yn rhyngwladol, safle dynodedig, na safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol yn ystod y cyfnod monitro hwn. Gweler PS15 am ragor o fanylion.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
66	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd o fewn yr AMAA, yn groes i'r fframwaith polisi.	Ni ddylai cynigion datblygu arwain at gynnydd sylweddol yn lefelau llygredd nac arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i gysylltiad â lefelau sylweddol o lygredd.	O fewn y cyfnod monitro hwn, cymeradwywyd chwe chais ar gyfer datblygu yn yr AMAA. Barnwyd bod yr holl gynigion yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. Gweler PS16 am ragor o fanylion.	
70	<i>Dangosydd Craidd:</i> Cwmpas yr agregau a gafwyd o dir sylfaenol a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sy'n ofynnol, fel y nodwyd yn yr MTAN. <i>Dangosydd Lleol:</i> Y cyflenwad tir ar gyfer agregau.	Mae cronfa dir 10 mlynedd o greigiau mâl i gael ei chadw ar hyd cyfnod y Cynllun.	Mae gan CNPT gronfa dir o 47 mlynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 3 blynedd (2017-2019) a chronfa dir o 43 blynedd ar sail gwerthiant cyfartalog 10 mlynedd (2010-2019). Gweler PS17 am ragor o wybodaeth.	
71	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd a fyddai'n sterileiddio adnodd mwynau.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	O fewn y cyfnod monitro hwn caniatwyd 21 o geisiadau ar gyfer datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau. Barnwyd bod yr holl geisiadau'n unol â'r fframwaith polisi. Gweler PS17 am ragor o wybodaeth.	
72	Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau nad ydynt yn cyd-fynd â Pholisi M2.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Ni chaniatawyd ceisiadau ar gyfer echdynnu mwynau agregau yn ystod y cyfnod monitro hwn. O ganlyniad, ni chaniatawyd ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi. Gweler PS17.	
73	Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd o fewn Parthau Clustogi Mwynau.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	O fewn y cyfnod monitro hwn caniatwyd un cais ar gyfer cynnig mewn parth clustogi, ond barnwyd bod hynny'n unol â thelerau'r polisi. Gweler PS17.	

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
AC4	Swm y datblygu ar dir amaethyddol o safon uchel.	Dim ceisiadau'n groes i'r fframwaith polisi.	Ni chaniatawyd ceisiadau ar gyfer datblygu ar dir amaethyddol o safon uchel yn groes i'r fframwaith polisi yn ystod y cyfnod monitro hwn.	
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Mae amcan 2A, cynaliadwyedd, yn ceisio lleiafu'r adnoddau naturiol sy'n cael eu colli neu eu diraddio, ochr yn ochr â sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy yn unig. Mae dadansoddiad o'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y CDLI i ryw raddau yn cyflawni'r amcan AC hwn. Mae pedwar dangosydd (1, 2, 12 a 62) wedi methu â chyrraedd eu targedau mewn blynyddoedd blaenorol, gan arddangos effeithiau cyffredinol gymysg o ran yr amcan AC hwn. Mae'r dangosyddion sy'n weddill yn awgrymu effeithiau cyffredinol gadarnhaol o ran yr amcan AC hwn. 				

Amcan 2B yr AC: Cynnal a gwella ansawdd cemegol a biolegol/ecolegol adnoddau naturiol

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
11	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd y tu allan i derfynau aneddiadau.	Dim caniatáu ceisiadau y tu allan i derfynau aneddiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Cymeradwywyd 24 cais am ddatblygu y tu allan i derfynau aneddiadau yn y cyfnod monitro hwn. Barnwyd bod pob un ohonynt yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi. Gweler PS3 am ragor o fanylion.	
64	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, a safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sydd â phwysigrwydd rhanbarthol, yn groes i'r fframwaith polisi.	Dim caniatáu ceisiadau yn groes i'r fframwaith polisi.	Ni chafodd unrhyw geisiadau eu derbyn na'u caniatáu ar unrhyw safle a ddynodwyd yn genedlaethol nac yn rhyngwladol, safle dynodedig, na safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol yn ystod y cyfnod monitro hwn. Gweler PS15 am ragor o fanylion.	
AC5	% y dyfrgyrff sydd â statws dosbarthiad 'da' neu uwch gan CNC	Gwelliant blynyddol yn y statws dosbarthiad	O fewn Dalgylch Rheolaeth Tawe i Langatwg, mae statws dosbarthiad cyffredinol dda gan 43% o'r dyfrgyrff arwyneb, gyda 52% yn gymedrol a 5% yn wael o ran statws cyffredinol. Nid oes dyfrgyrff ar statws cyffredinol uchel neu wael (Dosbarthiad 2015) ⁽¹⁸⁾	0

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
Dadansoddiad:				
<ul style="list-style-type: none"> Mae dadansoddiad o'r dangosyddion uchod yn awgrymu bod y polisiau'n gweithio'n effeithiol er mwyn cynnal a gwella ansawdd biolegol/ecolegol adnoddau naturiol yn y Fwrdeistref Sirol. 				

Amcan 2C yr AC: Lleihau gwastraff a lleihau'r symiau o wastraff a waredir trwy dirlenwi

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
77	Nifer y ceisiadau a ganiatawyd oedd â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) i gyd-fynd â nhw.	Dylai pob cynnig datblygu newydd sy'n cael eu cwmpasu gan Bolisi G3 gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP).	Roedd wyth cais yn cyrraedd y trothwy oedd yn golygu bod rhaid cael SWMP yn ystod y cyfnod monitro hwn. Gosodwyd amod ar bob un heblaw un i gynhyrchu SWMP sy'n rhoi sylw i'r cyfnod adeiladu a meddiant/gweithrediad y safle wedi hynny. Gweler PS19 am ragor o fanylion.	
78	Nifer y cyfleusterau gwastraff a ganiatawyd ac a wrthodwyd ar safleoedd cyflogaeth	Sicrhau cyflenwad priodol o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwastraff	Ni dderbyniwyd ceisiadau yn ystod y cyfnod monitro, felly cynhaliwyd y fframwaith polisi. Gweler PS19 am ragor o wybodaeth.	
79	Swm y tir i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT	Cynnal tir a chyfleusterau digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff yn CNPT (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21)	Mae 7.5 mlynedd o le gwag ar gyfer tirlenwi ar gael, felly bernir bod digon o dir a chyfleusterau ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddelio â deilliannau gwastraff. Gweler PS19 am ragor o wybodaeth.	
SA6	% y gwastraff a gasglwyd gan yr awdurdod lleol (LACW) (19) a aildddefnyddiwyd/ ailgylchwyd/ gompostiwyd	Cynnydd blynyddol	Cafodd 65.4% o LACW CNPT ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod 2020/21. (20)	

20 [20. Stats Wales: Rheolaeth flynyddol ar wastraff yn ôl y dull rheoli \(tunelli\)](#)

19 Gwastraff a Gasglwyd gan yr Awdurdod Lleol

11 . Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

Cyf. y Dangosydd	Dangosydd Monitro	Targed	Sylwadau	Canlyniad
Dadansoddiad:				
